
# SOTHACH

*Rhif 43*
*Awst*
*1992*



RHIFYN DWBWL
£1.00 YN UNIG

AR Y RHINIOG HEFO
GERAINT JARMAN


PLESER PERYGLUS - YN
NOETH YN Y COED EIRIN


DATBLYGU ETO - KAMPIO
HEFO DAVE

BBC RADIO CYMRU

# Chwyrach?














**BOB NOS**

**10·00~11·30 p.m.**

AR Y CLAWR: GERAINT JARMAN A'R CYNGANEDDWYR LLUN: ROLANT DAFIS

# SOTHACH

RHIF 43 GORFFENNAF - AWST 1992 £1.00

**GOLYGYDDOL**
Cyngor canu cyfoes + Siart 20
**TUDALEN 4**

**BWYSTFIL ROC A ROL**
Yr arswyd!
**TUDALEN 6**

**PIGION PIWSIG - PIGION PELLACH**
Newyddion + Calendr Steddfod
**TUDALEN 8**

**ANTURIAETHAU DEVELOPING DAVE**
Dave Datblygu
**TUDALEN 10**

**YN NOETH YN Y COED EIRIN**
Bang! Pow! Biff!
**TUDALEN 12**

**HEI BEIBI, CYT Y BYG**
Y cyntaf yn ein cyfres o archwiliadau seicolegol dwys . . . .
**TUDALEN 14**

**CYSTADLEUAETH ANKSTAIDD**
Hollol amesing
**TUDALEN 16**

**CAMU DROS Y RHINIOG**
Geraint Jarman
**TUDALEN 18**

**ASIANTAETH ROC CYMRAEG**
Hen frwydr tir newydd
**TUDALEN 21**

**ADOLYGIADAU**
Rhai byw ac fel arall
**TUDLEN 22 - 32**

**ANNWYL SOTHACH!**
Ia . . . ia . . . .ia . . . .
**TUDALEN 34**

SOTHACH!, 8 RHES VICTORIA, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3AG.
FFÔN : (0248) 600 578 FFACS : (0248) 600 587



EIRIN PERYGLUS



DAVE EDWARDS



GERAINT JARMAN




BEGANIFS

NID YW'R GOLYGYDDION NA'R CYHOEDDWR O ANGENRHEIDRWYDD YN CYDWELD A PHOB SAFBWYNT A FYNEGIR GAN EIN CYFRANWYR. CYHOEDDWYD GAN GWMNI CYTGORD CYF. AC ARGRAFFWYD GAN O. JONES, LLANGEFNI.

Ⓟ 1992 CWMNI CYTGORD CYF. 1992 © CEDWIR POB HAWL. NI ELLIR ATGYNHYRCHU UNRHYW RAN O'R CYHOEDDIAD HWN NA'I GADW MEWN CYFUNDREFN ADFERADWY NA'I DROSGLWYDDO MEWN UNRHYW DDULL NA THRWY GYFRWNG ELECTRONIG, MECANYDDOL, FFOTOGOPIO, RECORDIO, NA FEL ARALL, HEB GANIATAD YMLAEN LLAW GAN Y CYHOEDDWYR.

# GOLYGYDDOL

## CYNGOR CANU CYFOES

Chwi ddarllenwyr doeth a goleuedig, nid oes angen eich atgoffa i beidio byth â chymeryd ormod o ddifri yr hyn a welwch yn y wasg ac a glywch ar y cyfryngau. Mae hyn yn arbennig o wir am y datganiadau a'r wybodaeth anghyflawn a chamarweiniol sydd wedi ymddangos ar bwnc cyngor neu asiantaeth canu cyfoes i Gymru. Mae perygl bod pwyntiau gwleidyddol wedi bod yn cael eu sgorio ar draul y sîn roc.

Cymerwch yr honiadau paranoiaidd bod y toriaid yn ceisio ymyryd yn y sîn roc gyda phinsiaid mawr iawn o halen. Y gwir yw bod trefnwyr, labeli a cherddorion wedi bod yn trafod y syniad o gyngor neu asiantaeth ers 1989 gan annog sefydliadau cyhoeddus i gydnabod ac ariannu roc fel sy'n digwydd merwn gwledydd eraill. Canlyniad hyn yw bod nifer o sefydliadau fel Cyngor y Celfyddydau, S4C a'r Bwrdd Iaith wedi dangos diddordeb. Yn Ebrill eleni cafodd y syniad o gyngor roc fyddai'n gallu trefnu cylchdeithiau gigs, perswadio tafarnau a chanolfanau i chwarae cerddoriaeth Gymraeg, hyrwyddo a marchnata dramor a rhoi cyngor busnes i fandiau, gefnogaeth cynrychiolwyr 40 o fudiadau a sefydliadau Cymru mewn cynhadledd ar "Gymdeithasu yn y Gymraeg i Oedolion Ifanc". Yn Showbiz eleni cafodd y syniad gefnogaeth bandiau, stiwdios, labeli a threfnwyr ac etholwyd pyllgor i fynd ati i sefydlu cyngor neu asiantaeth.

Mae "Sothach" yn cefnogi sefydlu cyngor canu cyfoes i Gymru fyddai'n atebol i gynrychiolwyr y diwydiant ac yn cynnig gwasanaethau sylfaenol i gefnogi a datblygu'r gweithgaredd sy'n digwydd eisioes mewn ffordd ddi-duedd, gyffredinol na fyddai'n ffafrio unrhyw garfan, band, cwmni neu fath o gerddoriaeth neu safbwynt. Ni welwn unrhyw broblem gyda derbyn unrhyw fath o arian cyhoeddus (ein arian ni ydi o) cyn belled bod yna reolaeth dros ei wario gan y diwydiant canu cyfoes a bod yr egwyddor "hyd braich" yn cael ei weithredu. Yn ddelfrydol, dylai'r nawdd ddod o sawl ffynhonell i osgoi gorddibyniaeth ar un noddwr. Dros gyfnod o amser byddai'n ddymunol i'r cyngor ddatblygu i fod yn hunan-gynhaliol i'r graddau uchaf posib.

Byddai gwaith y cyngor o sicrhau mwy o gigs, gwerthiant a chynulleidfa yn cynyddu annibyniaeth y sîn gan osgoi gorddibyniaeth ar arian cyfryngol. Mae cynyddu gwerthiant a gigs a chyrraedd cynulleidfa ehangach yng Nghymru a thramor yn sylfaenol er mwyn iechyd a datblygiad y canu cyfoes a'r iaith. Nodwedd bwysig arall o'r cyngor fyddai cynrychiolaeth ar bwyllgor Asiantaethau Roc Ewrop. Fel gyda'r peldroed, rhaid inni sefydlu 'cynghrair cenedlaethol' os am gael chwarae yn Ewrop y tymor nesaf!

I ddod nôl at y neges gychwynol, peidiwch ychwaith â derbyn golygyddol "Soth" yn ddi-gwestiwn. Mae yna drafodaeth agored a phroses ymgynghori yn mynd ymlaen ar natur y cyngor. Codwch gwestiynnau, trafodwch y posibiliadau. Yn fwy na dim mae angen syniadau adeiladol ar swyddogaeth a natur y cyngor a'r ffordd ymlaen i sicrhau mwy o werthiant, gigs a chynulleidfa.

## UGAIN UCHA SIART CYTGORD

1. BEGANIFS (4)
2. ANHREFN (1)
3. FFA COFFI PAWB (5)
4. MONIARS (6)
5. HOGIA LLANDEGAI (3)
6. DAFYDD IWAN (2)
7. SOBIN A'R SMAELIAID (11)
8. JAC Y DO (13)
9. GWERINOS (19)
10. MEIC STEVENS (9)
11. AROS MAE (-)
12. JECSYN FFEIF (17)
13. CELT (-)
14. DATBLYGU (8)
15. PYW DALL (19)
16. HEFIN HUWS (-)
17. CYLCHOEDD HUD (15)
18. STEVE EAVES A'I DRIAWD (-)
19. JESS (-)
20. NEIL ROSSER A'R PARTNERIAID (-)

# DDY GRÊT ROC & ROL SWINDYL?

**Joe Henderson yn bwrw golwg ar anghydfod diwydiannol o fewn y wyndyrffwl SRG....**

Yng ngwanwyn 1991 gofynodd aelod o Undeb y Cerddorion (MU) i Griw Byw pam nad oedd o/hi wedi derbyn tâl ail-ddarlledu am gân a gafodd ail-ddangos ar "Fideo 9". Dywedodd Criw Byw nad oedd tâl ail-ddarlledu yn daladwy (60% o'r ffi gwreiddiol) ond ar ddarnau oedd yn para mwy na 2 funud. Roedd Criw Byw yn gweithredu dan gymal 22 o'r cytundeb MU/ITVA sy'n caniatau i gwmni gynnwys darnau cerddorol llai na 2 funud mewn 'rhaglen gylchgrawn' ac, yn lle talu ffi ail-ddarlledu i'r cerddor, gwneud cyfraniad i benevolent fund yr MU.

Holodd yr aelod yr MU am ddiffiniad o be' ydi 'rhaglen gylchgrawn' a pholisi ar ddefnyddio darnau o gerddoriaeth.

Atebodd yr MU, wedi cael golwg ar 'cue sheets' "Fideo 9" (cyfres 5) a "Syth '91", nad oedd yn bosib diffinio'r ddwy raglen ond fel 'rhaglenni cerddorol', a bod taliadau ail-ddarlledu'n daladwy beth bynnag oedd hyd y gwaith. Byddai hyn hefyd yn wir am raglenni blaenorol a gynhyrchwyd ar gyfer S4C gan gwmniau annibynol.

Tra bod cytundeb newydd yn cael ei drefnu rhwng TAC a'r MU, mae cwmniau annibynol yn gweithredu dan yr hen gytundeb MU/ITVA. Mae S4C wedi dweud yn blaen nad ydynt yn ystyried eu bod wedi torri amodau'r cytundeb a dywedant mai eu dadansoddiad nhw o'r cymal perthnasol sy'n gywir.

Mae'r MU yn ei dro yn hollol bendant bod taliadau ail-ddarlledu yn daladwy ac maen nhw wedi rhoi'r mater yng ngofal eu hadran gyfreithiol. Hoffai'r MU hysbysu cerddorion bod unrhyw waith y gwnan nhw o hyn allan dan dermau'r cytundeb MU/ITVA ac y bydd unrhyw ail-ddefnydd o'r gwaith yn golygu tâl ail-ddarlledu.

Dywed Criw Byw eu bod yn "edrych ymlaen at weld diwedd cyfeillgar i'r anghydfod rhwng S4C a'r MU ac nid ydynt yn dymuno i'r anghydfod effeithio mewn unrhyw ffordd ar y berthynas wych sy'n bodoli rhwng aelodau'r MU yng Nghymru a Chriw Byw."

Oherwydd bwriad yr MU i fynd â'r mater i gyfraith, dywed S4C y byddai'n anoeth iddynt wneud unrhyw sylw ar hyn o bryd ar wahân i ddatgan eu dymuniad y caiff yr anghydfod ei unioni er boddhâd y ddwy ochr.

**Joe Henderson**

**Mae'n syniad da ymuno â'r MU. Gallwch gysylltu a nhw yn y cyfeiriadau isod.**

**Undeb y Cerddorion yng Nghymru:**

**Morgan Borthwick,
Cangen
Arfordir y Gogledd,
14 Patrick Avenue,
Rhyl,
Clwyd LL18 4TU.
Ffôn: 0745 353 264.**

**Gary Martin,
Swyddfa Post,
Melyn Court,
10 Hill Street,
Melyn Court,
Castell Nedd SA11 4AT.
Ffôn: 0639 710 204.**

**Mr Tom Edwards,
199 Carlisle Street, Sblot,
Caerdydd CF2 2PE.
Ffôn: 0222 461 205.**

**Marcus Lord,
7 Blodwen Terrace,
Penclawdd,
Abertawe SA4 3XU.
Ffôn: 0792 850 267.**

**Keith Stuckey,
2 Cwm Niol Place,
Cwmaman,
Aberdar CF44 6PA.
Ffôn: 0685 870 497.**

**Swyddfa ganolog:
Musicians' Union,
60-62 Clapham Road,
Llundain SW9 OJJ.**

# BWYSTFIL

## Roc a Rol 2

**Yr arswyd! Pwy yw'r bwystfil roc & rol mwya' yng Nghymru? Edwin Humphries? Sion DOM? Johnny R? Luned Aros Mae? Aeth Barry Edwards draw i gael sgwrs hefo Pyw Dall i freindio mas.**

**Roeddach chi'n dipyn o hit yn 'Steddfod yr Urdd yn Rhuthun yn ddiweddar. Sut oeddach chi'n teimlo am eich llwyddiant?**

**PD:** "Nath y trefnwyr ein dewis ni fel 'Band yr Wythnos' ac mi oeddan ni'n blês ac yn falch."

**Roedd y gynulleidfa'n ifanc iawn. Dach chi'n licio chwarae i kids?**

**PD:** "Dan ni'n caru'r kids gymaint. Maen nhw'n gwario eu pres poced i gael dod mewn ac maen nhw'n benderfynol o gael amser da. Tydyn nhw ddim yn meddwi a tydyn nhw ddim mor sinigaidd ag oedolion. Os ydyn nhw'n licio chdi maen nhw'n gadael i chdi wybod ac os ydyn nhw'n dy gasau di maen nhw'n gadael i chdi wybod hynny hefyd. Dwi'n caru'r rhai ifanc, dwi'n eu caru nhw gymaint nes 'mod i isio cynnal parti iddyn nhw i gyd."

**Mae'ch steil chi wedi newid lot yn ddiweddar. Sut fysech chi'n disgrifio'ch miwsig rŵan?**

**PD:** "Dan ni'n gwrthod cymryd ein categoreiddio. It's roc & rol, man!"

**Dave, mae dy ganu'n reit dda. Dach chi'n dal yn chwilio am ganwr newydd?**

**Dave:** "Ydan. Mae 'nghanu i'n iawn ar gyfer y stwff dan ni'n neud rŵan ac mi fyddai'n canu efo'r grwp am byth ond dan ni angen rhywun mwy amrywiol ar gyfer y stwff sydd gynnon ni mewn golwg."

**Be' dach chi'n feddwl o Dylan fel gitarydd?**

**PD:** "Mi eith o'n bell. Mae ganddo fo ddyfodol gwych."

**Yn wahanol i'r rhan fwya' o'r bands Cymraeg dach chi'n symud o gwmpas lot ar lwyfan. Dach chi'n meddwl ei bod hi'n bwysig gwneud sioe?**

**PD:** "Yn bendant. Mae'n rhaid iti adael i'r gynulleidfa wybod dy fod ti'n mwynhau dy hun. Mae rhai grwps jyst yn sefyll ac edrych yn ddiflas a 'dopey' - mae hynny'n pathetig."

**Dach chi'n cymdeithasu oddi ar y llwyfan?**

**PD:** "Mae Dave a Dylan yn perthyn felly maen nhw'n gweld eu gilydd yn aml beth bynnag. Yn anaml iawn awn ni'n tri allan am ein bod ni'n byw mor bell i ffwrdd."

**A fysech chi'n barod i roi'r gorau i'ch swyddi er mwyn y miwsig?**

**PD:** "Mi fyddai Tudur a Dylan yn gwneud yn bendant. Mae'n siŵr fysa Dave yn rhoi'r gorau i fod yn newyddiadurwr petai'r cyfle iawn yn dod achos mae'n broffesiwn fedri di fynd yn ôl ato fo."

**Pa fandiau Cymraeg dach chi'n rêtio?**

**PD:** "Jecsyn Ffeif, Yr Anhrefn, Celt, Canol Caled."

**Oes gynnoch chi arferion drwg?**

**PD:** "Mae Dave a Dylan yn gamblo gormod."

**Ydi Pyw Dall yn grefyddol?**

**PD:** "Dim o gwbl. Dan ni'n ymarfer ar ddydd Sul."

**Be' ydi'r fideo gorau welsoch chi eleni?**

**Tudur:** "The Commitments"

**Dave:** "Queen - "The Magic Years"

**Dylan:** "Colour Climax, volume 458."

**Mae Pyw Dall yn dod yn fwy adnabyddus ond ydach chi'n cael y gydnabyddiaeth dach chi'n haeddu?**

**PD:** "Na! Does neb wedi'n helpu ni o gwbl , ond mi neith hynny roi boddhad inni pan dan ni'n llwyddiannus."

**Pa aelod o'r band yw'r yfwr mwya'?**

**PD:** "Tudur."

**Oes 'na rai ohonoch yn licio chwaraeon?**

**PD:** "Mae Tudur yn chwarae rygbi i Langoed. Roedd Dave yn arfer chwarae peldroed a rygbi ond mae'n fwy hamddenol rŵan ac yn dilyn rasio ceffylau a pheiriannau ffrwythau."

**Tudur, wut ti'n modelu dy hun ar rywun?**

**Tudur:** " Ar Hogia Llandegai bellach."

**Pa grwp hoffech chi syportio?**
**PD:** "Queen."


**Be dach chi'n feddwl am bobl sy'n cymryd cyffuriau?**

**PD:** "Dim y rhai sy'n eu cymryd nhw gymaint â'r gwerthwyr. Mae sgym fel 'na'n ein gwneud ni'n sal. Dewdwch na pob tro, kids - dim ond ffyliaid sy'n cymryd cyffuriau."

**Uchelgeision y band?**

**PD:** "I fynd mor bell ag y gallwn yng Nghymru. Hefyd hoffem gyfarfod mwy o bobl yn y gigs. Dewch i siarad hefo ni, ffans, dan ni'n hogia dymunol!!!"

**Am fwy o fanylion am Pyw Dall cysylltwch â : Dave Jones ar 074581 4081/5130 (gwaith) neu 074581 2658 (adref).**




llun: Iolo Williams

PYW DALL YN FYW YN RHYL

# PiGiON PiWSiG

## SESH SOTH

Y gair yn 'Steddfod Aber eleni yw "Dewch i Sesh Soth am Sesh". Hwn fydd gig mwya' gwahanol y 'Steddfod o ran lein-yp. Dewch yn llu ar y prynhawn Sadwrn olaf i'r Angel i gael gweld tri o'r bandiau mwya' amlwg ar y sin Gymraeg gyfoes. Tri band hollol wahanol o ran arddull ond sydd gyda'r mwya' gwreiddiol yng Nghymru.

Bydd BOB DELYN A'R EBILLION, y ffrantic ffocis o Fethesda yno. Dyma eu gig diwetha' yn y 'Steddfod felly lwc owt! Hefyd yn chwarae fydd DATBLYGU. Shwt siap fydd ar Dave a'r posse? A fydd DATBLYGU yn ddadleuol? The Welsh Darlings of JOHN PEEL! I gwblhau'r sesiwn bydd sŵn unigryw y JECSYN FFEIF. Bwgi on down efo GARETH SION a'r criw cyn mynd ar eich chwech awr olaf o feddwi!

Am £3.00 mae'n fargen, pris dau beint! Falle'ch bod chi yng ngwlad y Cardi ond peidiwch â throi yn Gardi, da chi! Bwc ior sits now! *(Cardi nath sgwennu'r uchod, gyda llaw - Gol)*

## ANHREFNUS

Bydd yr ANHREFN yn brysur tros yr haf yn gigio yma a thraw cyn mynd i'r stiwdio i weithio ar sengl newydd. Mae 'na son am gael BILL DRUMMOND i gynhyrchu.

## GŴYL COFI POP

Cofiwch fynd i gyd-feibio yn y Dôm, Caernarfon, ar Awst 31 pan fydd bandiau gorau'r dre' yn ymgynull yno i rocio, i ddawnsio ac i greu rycsiwns rocaidd reu a chwarae 'chydig o gerddoriaeth hefyd. Ymysg y rhai fydd yn cymryd rhan fydd AROS MAE, BEGANIFS, DFFA ac AMDDIFFYN + gwesteion arbennig.

Cynhaliwyd yr ŵyl Cofi Pop gyntaf yn Theatr Seilo ym 1990 ond ohewrydd gwaharddiad y theatr ar gyngherddau roc, ni fu'n bosib cynnal digwyddiad tebyg ym 1991. "Mae'n bwysig fod yna ŵyl fawr flynyddol yn y Gogledd," meddai'r trefnwyr, "Ac ers tair mlynedd bellach mae Caernarfon wedi cynhyrchu cymaint o bands newydd cyffrous."


## MAE GORKY"N ZYGOTIC

Mae "Peiriant Pleser", caset newydd GORKY'S ZYGOTIC MYNCI, mas nawr. Mae deg trac i gael arno fe sef "Miriam o Farbl", "Barbed Wire", "Peanut Dispenser", "Dyn Sêr (James Dean)", "Siwmper Heb Grys", "Mefus a Chadno", ""Mr Grwfi", "Sally Webster", "Ti! Moses", a "Defnyddio Basical i Gyrraedd Breuddwydion".

Ar gael drwy'r post am £3.00 gan Euros Childs, Redlands, Freshwater East, Lamphey, Penfro, Dyfed.

## ANKST

Bydd wythnos y 'Steddfod yn un dyngedfennol i ANKST hefo llu o dapiau/CDau/senglau'n cael eu lluchio'n un torreth feibus i'r pedwar gwynt. Ymysg y danteithion




GORKYS. ZYGOTIC MYNCI — Llun: Peter Telfer /Big New Coyote

# PiGiON PELLACH

glafoerus y tro hwn mae CD/casetiau newydd GERAINT JARMAN A'R CYNGANEDDWYR, STEVE EAVES A'I DRIAWD a chasgliad CD/caset o oreuon Y CYRFF. Gwyliwch hefyd am sengl 7" ("yr ola' yn Gymraeg") ar y cyd rhwng DATBLYGU a LLWYBR LLAETHOG/IFOR AP GLYN ac lp/caset o sesiynau DATBLYGU i raglen radio JOHN PEEL . Os nad yw hynny'n ddigon mae 'na gasgliad fideo o fandiau ANKST hefyd yn ymddangos fydd yn cynnwys traciau gweledol gwych gan FFA COFFI, Y CYRFF, BEGANIFS, TŶ GWYDR etc. Gweler y Gystadleuaeth Ankstaidd Hollol Amesing yn y rhifyn hwn.

### CRAI

Bydd TYNAL TYWYLL yn ail-afael yn yr hen gyfeillgarwch anhrefnus hefo RHYS MWYN wrth ryddhau eu caset newydd, "Dwi Isho Bod", ar label cŵl CRAI yn 'Steddfod Aberystwyth eleni. MAI '68 fydd yn gyfrifol am hyrwyddo a rheoli'r grwp o hyn ymlaen. Gwyliwch hefyd am gasetiau gwych newydd gan SORIANT, JINA, YR ADDEWID a BYD NEWYDD. Manylion: 0286 831 111.

### FFLACH

Allan ar FFLACH at y "Steddfod mae casetiau newydd gan DEFAID, TIPS WYN GRUFFYDD a DOM ynghyd a chasgliad o ganeuon gorau MALCOLM NEON. Manylion: 0239 614 691.

### OFN EIRIN

Ar ol dwy flynedd yn y crochan mae caset/CD newydd EIRIN PERYGLUS mas nawr. "Noeth" yw'r teitl ac mae hi allan ar label OFN.

### SORI, MET

Hoffem ymddiheuro yn graflyd i'r ffotograffydd anhygoel a thalentog, ROLANT DAFIS, am roi'r clod am y llun poster diweddar hollol bril o AROS MAE i berson camera arall. Sori, byt. Llun da oedd o hefyd.

### GAWSOCH CHI STEDDFOD DDA?

Be' oeddech chi'n feddwl o'r 'Stedd eleni? Be' am anfon eich barn atom i'w gyhoeddi?

# CALENDR STEDDFOD

| | | |
|---|---|---|
| Awst 1 | DAFYDD IWAN (8pm) | Clwb Rygbi Aberystwyth |
| | HANNER PEI<br>GOFODWYR PIWS<br>CYLCHOEDD HUD | Undeb, Aberystwyth |
| | BOB DELYN A'R EBILLION | Clwb Peldroed Penrhyncoch |
| | MONIARS | Abergynolwyn |
| Awst 2 | EIRIN PERYGLUS<br>AIL GYFNOD<br>MESCALERO<br>23 | Neuadd Fawr, Aberystwyth |
| Awst 3 | MYNEDIAD AM DDIM | Marine, Aberystwyth |
| | AROS MAE<br>BEGANIFS<br>DIEMS | Undeb, Aberystwyth |
| | ANHREFN<br>FFLAPS<br>CANOL CALED | Neuadd Fawr, Aberystwyth |
| | PLETHYN | Clwb Peldroed Penrhyncoch |
| Awst 4 | FFA COFFI PAWB<br>U THANT<br>Y CANOL LLONYDD | Neuadd Fawr, Aberystwyth |
| | STEVE EAVES A'I DRIAWD<br>Y BRWD<br>IAN RUSH | Undeb, Aberystwyth |
| | MYNEDIAD AM DDIM | Marine, Aberystwyth |
| | HEATHER JONES A HIN DEG | Clwb Peldroed penrhycoch |
| Awst 5 | TYNAL TYWYLL<br>Y PROFIAD<br>JYLOPIS | Neuadd Fawr, Aberystwyth |
| | CERRIG MELYS | Angel Aberystwyth |
| | HEFIN HUWS<br>JECSYN FFEIF<br>CELT | Undeb, Aberystwyth |
| | NEIL ROSSER<br>A'R PARTNERIAID | Clwb Peldroed Penrhyncoch |
| | BYD NEWYDD | Pabell Sain, Steddfod |

| | | |
|---|---|---|
| Awst 6 | TY GWYDR<br>BEGANIFS<br>DATBLYGU<br>LLWYBR LLAETHOG<br>DIFFINIAD | Pafiliwn Pontrhydfendigaid |
| | BOB DELYN A'R EBILLION<br>SORIANT<br>BLAS GLAS<br>MONIARS | Undeb, Aberystwyth |
| | MEIC STEVENS | Clwb Peldroed Penrhyncoch |
| | TYNAL TYWYLL | Pabell Sain, Steddfod |
| Awst 7 | SOBIN A'R SMAELIAID | Marine, Aberystwyth |
| | JESS<br>YR ADDEWID<br>DYLANWAD DRWG | Neuadd Fawr, Aberystwyth |
| | CERRIG MELYS<br>MISTECS<br>Mr. ALPHABET<br>Y CATHOD | Undeb, Aberystwyth |
| | GERAINT LOVGREEN<br>A'R ENW DA | Clwb Peldroed Penrhyncoch |
| | BEGANIFS<br>HANNER PEI<br>SLECS | Talbot, Aberystwyth |
| | MONIARS | Gwesty Llety Gwyn, Llanbadarn |
| | TYNAL TYWYLL<br>IAN RUSH<br>DISGO | Clwb Peldroed Aberystwyth |
| Awst 8 | DEFAID<br>CAFFI VADASSI<br>FFA COFFI PAWB | Undeb, Aberystwyth |
| | GERAINT JARMAN<br>DOM<br>AMDDIFFYN | Neuadd Fawr Aberystwyth |
| | HOGIA LLANDEGAI | Llanbadarn Fawr, Aberystwyth |
| | JECSYN FFEIF<br>DATBLYGU<br>BOB DELYN A'R EBILLION | Angel, Aberystwyth<br>Seswn Sothach (pnawn) |
| | DAFYDD IWAN | Clwb Peldroed Penrhyncoch |

GWYBODAETH AM GIGS GIGIODIGION - GWELER HYSBYSEB TUDALEN 15

# RHAGOR O ANTURIAETHAU DEVELOPING DAVE

**Ers iddo ennill y gadair, y goron, y tlws rhyddiaith a'r vedal ddrama yn Eisteddvod Llanvaelog ym 1993, mae'r sevydliad llenyddol Cymreig wedi gorvod dod i dermau hevo David R Edwards, bete noir llenyddiaeth Gymraeg yr 20ved ganriv. Aeth ein Gohebydd Gwrtaith draw i Aberystwyth i gael gair.**

Dave Datblygu - a yw'r chwedl yn wirionedd? Un peth am y boi yma yw bod lot o bobl efo camsyniadau amdano. Cewch i siarad gyda fe achos, ys dywed y Sais, "He's only human."

Roedd y bardd/canwr newydd ddod nôl o Ynys Mon lle roedd yn recordio cân ar gyfer y sengl sy'n cael ei chyhoeddi at y 'Steddfod. Cyn cymryd cam i mewn trwy'r drws roeddem yn cerdded lawr y stryd i gyfeiriad siop Victoria Wines i brynu 40 o Gamels a 3 potel o win. Sesh arall amdani.

"What do you say to that," oedd ei ymateb pan ofynnais iddo a oedd yn edrych ymlaen at y 'Steddfod, "Wrth gwrs 'mod i, mae pawb!"


Cefais gyfle i glywed y gân sydd gan Datblygu allan ar sengl adeg y 'Steddfod ar label Ankst.

"Y peth gorau 'yn ni erioed wedi'i neud. Sgrifennais y geiriau efo'r Prifardd Kenny Reid o'r Alban ac mae'r miwsig yn ff***n briliant fel arfer. Yntydw i'n arrogant bastard. Nac ydw," oedd barn Dave am y sengl.

"Mae'r sengl yn gân serch go iawn," aeth ymlaen, "yn anffodus gwympes i mewn cariad â rhywun felly mae'n swnio fel Otis Reading efo wyneb gwyn."

Aeth y dydd yn ei flaen a bellach roedd y gwin yn dechrau cael effaith ac mi aeth y sgwrs i son am amryw o wahanol bethau, hyd yn oed A5 a Johnny R. "Meddwl bod nhw'n f***n briliant," oedd ymateb Dave.

Yn ddiweddar fe gyhoeddodd Y Lolfa y llyfr, "Al, Mae'n Urdd Camp", casgliad o gerddi gan Dave. Wrth i mi ei holi am ei ymateb i'r adolygiad llym yn "Golwg" dywedodd: "Dangosodd Elen (golygydd y llyfr) e i fi ac obviously oni'n 'very impressed'



DAVE llun: John Griffiths

bod rhywun wedi mynd i'r drafferth o 'sgrifennu llwyth o gachu amdanaf i."

Cefais yr argraff bod ysgrifennu'r llyfr wedi bod yn brofiad mawr i Dave.

"Yn anffodus," meddai, "Yng Nghymru ych chi ond yn rhywun os ych chi'n cyhoeddi llyfr. Y peth gorau am y llyfr oedd y ferch nath olygu fe."

Roedd hi'n bryd anghofio am y llyfr a mynd yn ôl at y 'Steddfod. Aethom i son am y gig enfawr ar nos Iau y 'Steddfod ym Mhontrhydfendigaid lle mae Datblygu yn chwarae efo Ty Gwydr, Beganifs a Llwybr Llaethog. Wrth son am y Noson Claddu Reu, ymateb Dave oedd "Sai'n nabod e!"

Aeth ymlaen i son bod reu 'n saffach nag aspirin a pharacetamol.

"Mae paracetamol ac aspirin yn achosi pen tost," meddai.

Holais y cwestiwn pam ei fod yn canu'n gyhoeddus?

"Achos fy mod i mor ff***n unig," meddai, "'Na i gyd dwi moyn yw un ferch sy'n mynd i aros a dim ff***o bant. Os yw hi am goc arall, iawn, ond dwi jyst eisiau cariad."

Wrth son am gerddorion eraill dywedodd: "Roedd Hefin Huws yn neud yr Happy Mondays ym 1982 ac mae fe mor sgint a fi nawr. Fi moyn neud rhywbeth 'da Hefin ryw ddydd."

Tros y misoedd diwethaf roedd Dave yn teimlo'n annifyr efo'r ffaith bod pobl yn fodlon talu i fynd i'w weld yn canu'n fyw neu'n talu am brynu ei waith ar ffurf record/caset. Yn y Noson Claddu Reu yn y 'Steddfod eleni bydd sengl ar y cyd rhwng Datblygu a Llwybr Llaethog yn cael ei rhoi bant yn rhad ac am ddim. Pam?

"I don't need to sell my soul, he's already in me." - Ian Brown, Stone Roses.

Aeth Dave ymlaen i son ei fod yn edmygu pawb mewn un ffordd neu'r llall. Dywedodd ei fod yn casau Vincent Kane ond, ar y llaw arall, dywedodd ei fod yn ei edmygu hefyd. Aeth ymlaen i son ei fod yn edmygu'r Gwefrau fel grwp.

"Best Welsh band ever. Menywod prydferth efo hunan-hyder. Fy uchelgais yw cymuno efo nhw rywbryd dros lot o ddôp ac alcohol. I wish they'd say get down on me! Ges i ryw yn gynharach eleni. Odd y Gwefrau ddim o gwmpas yn anffodus."


Erbyn hyn roedd hi'n mynd yn eithaf hwyr ac roedd y gwin a'r sigarets bron â gorffen. Soniodd Dave am y casgliad o sesiynau John Peel sy'n cael eu rhyddhau fel "Hunllef yn Rhywle". Dydw i ddim eisiau eu clywed nhw."

Beth am y dyfodol?

"Ie, hy, hy, hy, ie, na ie!"

Cwestiwn Daveaidd: "Pam fod gan pob cylchgrawn Cymraeg enw shit?"

Atebion ar gerdyn post os gwelwch yn dda. Bydd yr ateb gorau'n ennill copi o "Al, Mae'n Urdd Camp."




Ilun: John Griffiths

# yn noeth yn y coed eirin

**Bang! Pow! Biff! Mae gan Eirin Peryglus albym newydd allan wrth i chi ddarllen y geiriau hyn. Dyna pam aeth ein Gohebydd Gwrtaith draw i Stiwdio Ofn i gael gair hefo Fiona Owen (llais) a Robin Griffiths (synth).**

Stiwdio Ofn ar Ynys Mon ydi cartref ysbrydol Eirin Peryglus ac ers tua deunaw mis bu'r grwp yn gweithio ar yr albym newydd, "Noeth'. Wedi clywed ambell fersiwn o ambell i drac o'r albym (sydd heb ei chymysgu wrth i ni siarad) mentraf ddweud bod "Noeth" yn dilyn cyfeiriadau gwahanol i'r Eirin a fu gyda'r fformiwla llais-synth-gitar yn gwyro tuag at sŵn mwy tywyll ac atmosfferig.

"Dan ni'n mynd yn fwy fel ni'n hunain gobeithio," meddai Fiona, "Yn tyfu mewn i be' ydan ni yn hytrach na chyfaddawdu am resymau masnachol. Mae o'n ddatblygiad naturiol."

Mae'n wahanol iawn i'r tâp "Trosgynnol" ddaeth mas fel tamaid i aros pryd y llynedd. Roedd hwnnw'n dilyn llwybr mwy dawnsaidd.

"One-off oedd 'Trosgynnol'," meddai Fiona eto, "Ein hymgais ni i neud rhywbeth dawns. Nath lot fawr o bobl fwynhau o. Roedd dilynwyr cerddoriaeth ddawns yn rêfio amdano fo."

Rêfio maen nhw i fod i neud, wrth gwrs. Yn ôl Robin mae'r albym newydd fwy yn nhraddodiad yr e.p., "Y Llosg", ddaeth mas yn ôl ym 1989 fel rhan o gyfres o recordiau dawns 12" oedd yn cynnwys ffefrynnau fel Tŷ Gwydr, Ail Gyfnod, Pop Negatif Wastad etc. Ffoniodd gohebydd o'r cylchgrawn "Elle" Stiwdio Ofn yn ddiweddar ar gyfer erthygl fechan am y 'sin ddawns' Gymraeg a dywedodd mai cerddoriaeth ddawns Gymraeg oedd y sin danddaearol olaf yn Ewrop. Geiriau mawr.

"Mae hynny'n teimlo fel bod yn rhan o'r elite," meddai Fiona, "Yn sydyn reit mae'r tanddaearol yn rhan o'r elite. Dan ni erioed wedi dadansoddi be' dan ni'n neud, jyst gneud y miwsig. Dwi ddim yn gwybod a ydan ni erioed wedi slotio mewn efo'r peth dawns. Dan ni ddim wedi teimlo'n bod ni'n ffitio mewn hefo un peth na'r llall. Dan ni ddim fath â Tŷ Gwydr, er enghraifft, sy'n rhan o'r diwylliant dawns. Doeddan ni erioed y teip yna o fand, ddim yn fand dawns pur."

"Datblygiad ysbrydoliaeth cerddorol," yw geiriau Robin sy'n awgrymu grwp sy'n mynd ei ffordd ei hun. Mae Fiona'n barod i gyfaddef bod pobl yn dawnsio i'r band ond efallai bod y ddau Eirinen wedi cael llond bol ar y gair dawns erbyn hyn!

"Mae bandiau'n newid wrth ddatblygu," meddai Fiona gan gyfeirio at 'Noeth', "Mae hon yn atmosfferig yn hytrach nag yn bopaidd."

Oes yna rywbeth arbennig wedi dylanwadu ar yr Eirin yn ddiweddar?

"Mae fy chwaeth i wedi ehangu lot yn ddiweddar," meddai Fiona, "O ganu pop modern i fiwsig cynnar baroque. Mae hynny'n effeithio ar y ffordd ti'n clywed pethau."

"Mae technoleg yn helpu," meddai Robin, "Mae 'na fwy o amrywiaeth o offerynnau. Dan ni wedi adeiladu cyfanwaith yn hytrach na sgwennu riffs a tiwns."

Mae wedi cymryd tipyn o amser.

"Nath projectau eraill arafu ni," ebe'r synthberson, "Eleni mi aethon ni ati o ddifri'"

Mae "Noeth" yn offrwm dipyn mwy personol na'r hyn glywson ni o'r Coed Eirin o'r blaen. Mae'r swn yn fwy 'moody' a'r feib yn dywyll a mwy Ewropeaidd nag o'r blaen.

"Mae 'na fwy ohonof i ar yr albym yma," meddai Fiona, "Dwi wedi bod yn ofalus erioed i sgwennu am bethau ar wahân i fi ee hawliau anifeiliaid, yr amgylchedd. Dwi wedi dinoethi fy hun 'chydig mwy y tro yma. Mi wnes i gyfweliad i 'Fideo 9' lle ddwedais i na faswn i'n gallu sgwennu cân serch ond yna mi sgwennais i 'Anial Dir' sy'n son am gariad, er braidd yn 'desolate'."

Ydi'r teitl 'Noeth' yn awgrymu'r sgwennu mwy personol yma?

"Mae'r teitl yn gallu symboleiddio cymaint o wahanol bethau," meddai Fiona, "Dwi heb newid. Dwi'n dal i rwgnach am gyflwr y byd. Mae sgwennwyr fel Bobs yn canu amdanyn nhw eu hunain trwy'r amser yn hollol amlwg. Dwi erioed wedi gallu gwneud hynny am ba bynnag reswm. Ofn efallai?"

Ofn i'r ddelwedd gyhoeddus ddangos gormod o'r person preifat?

Fiona: "Mae gan bobl facade allanol a bywyd mewnol anhygoel yn mynd ymlaen. Mae'r facade yn creu delwedd cry' iawn ond mae'n llawn o emosiwn cymhleth dan yr wyneb."

Mae hwnna'n ddisgrifiad reit dda o sut mae'r albym newydd yn swnio ac mae'r cyfuniad o Eirin gwahanol yn egluro lot am y grwp a'r miwsig. Llais arbennig Fiona, synth melodig Robin a gitar gyfoes Alun. Mae agwedd at y grefft hefyd yn allweddol.

"Mae gen i ddiddordeb mewn mynegiant a lle mae miwsig yn dod," meddai Fiona, "Dwi'n meddwl bod miwsig yn dod fel sianel o rywle, 'dwn i ddim o ble. Dwi'n licio'r syniad o'r artist fel sianel a'r miwsig yn dod

trwodd. Mae gan Robin agwedd traed ar y ddaear, yn fwy mecanyddol, gwyddonol. Eto i gyd dwi wedi gweld Robin yn gweithio ar ddarn o gerddoriaeth trwy'r dydd ac yna'r ysbrydoliaeth yn dod o'r diwedd."

"Mae'n benllanw i nifer o ddatblygiadau ac arbrofion cerddorol," meddai Robin am 'Noeth', "Does dim un steil arbennig ond yn hytrach nifer o steilettes."



Fiona: "Mae'n fater o wahanol bobl yn dod ynghŷd ac yn ffurfio perthynas sy'n creu darn o fiwsig sy'n dod o wahanol gyfeiriadau. Dan ni'n dal efo'n gilydd ar ôl pum mlynedd."

Hei! Digon o'r ymresymu dwys yma. Tu ôl i'r wyneb pop cŵl a reu mae 'na ffan opera sebon.

"Dwi'n cyfyngu fy hun i 'Eastenders' a 'Coronation Street' erbyn hyn," meddai Fiona yn ein siomi ni i gyd hefo'i chymedroldeb.

Pa anifail hoffech chi fod?

Fiona: "Ceffyl neu ddolphin."

Robin: "Duck billed platypus."

Planhigyn?

Fiona & Robin: "Coeden."

Ydi'r lleuad yn gyrru pobl yn wallgo'

F: "Ydi, mae'n effeithio ar dy ddŵr di."

Robin: "Dwi'n credu mewn cydbwysedd, gwahanol bethau'n canslo pethau eraill."

Tydi Robin ddim yn cael cyfle i son am chaos theori a fractals a rhyw bethau felly ond mae ganddo neges bwysig i hedonistiaid Cymru. "Dwi'n meddwl ailffurfio'r Hellfire Society," meddai, "Roedd ganddyn nhw dwneli yn y ddaear. Hoffwn i gael partis gwyllt ynddyn nhw."

Rave on....

EIRIN PERYGLUS

llun: Peter Telfer / Big New Coyote

# HEI BEIBI, CYT Y BYG
# RHAN 1

**Y cyntaf yn ein cyfres o archwiliadau seicolegol dwys i yumennyddau eich hoff sêr pop. Y mis hwn - SIÔN DOM , CYM ON DOWN!!!**

**Y record diwetha' i ti brynu**

John Martyn - "Solid Air"

**Hoffi glaw**

Ydw

**Lle wyt ti a pham**

Yn y stiwdio yn recordio tâp newydd

**Pryd fuost ti'n feddw ddiwetha'**

Showbiz Cymru 1992

**Pam mae eira'n wyn**

Dim ond ffŵl sydd yn gofyn

**Cawl tun, cawl paced, lobsgows cartre'**

Cawl Mamgu

**Gig cyntaf**

Llwyngwair Trefdraeth 29/12/90

**Y pella' i ti ffawdheglu/bodio erioed**

Blaenffos i Aberteifi

**Enwch dri clasur o gân**

"Samba Pa Ti" - Santana
"Halloween Parade" - Lou Reed
"Meirw Byw" - Meic Stevens



SION DOM — llun: Dafydd Beili

**Un band fydd yn fawr y flwyddyn nesa'**

Fundamental - band o Lundain

**Y peth diwetha' i ti ddwyn**

Byth wedi

**Wyt ti'n ffrind i Superted**

Na

**Lliw sanau**

Piws

**Cymru'n rhydd ryw ddydd**

Os fydd Cymru eisiau

**Caffi gorau Cymru**

Cardigan Arms, Aberteifi

**Pwy ddylai fod yn sgwennu yn "Sothach"**

Pobl o Benygroes

**Fedri di newid plwg**

Gallaf

**Llaeth ynteu lefrith**

Llâth

**Ffordd gyflymaf o Gaerdydd i Gaergybi**

Dim clem

**Beth yw dy arwyddair**

Taurus y Tarw

**Y peth diwetha' i ti brynu o gatalog**

Trowsus a pans

**Person enwoca' i chi siarad â nhw**

Cynog Dafis

**Esbonia i Sais beth yw cerdd dant**

Turn right at the next junction

**Enwa dri grwp perthnasol**

DOM, Ail Symudiad, Canol Caled (aelodau'n perthyn o bell)

**Pa hysbyseb teledu wyt ti'n ei gasau**

Cân i Gymru '92

**Punchline dy hoff joc**

Dwylo mowr

**Pa ddiod sy'n gwneud i ti deimlo orau**

Jim Beam

**Pwy sy'n well na'r Anhrefn**

Gorky's Zygotic Mynci

**Record mwya' dylanwadol erioed**

Maffia - "Yr Ochr Arall", y record cyntaf Cymraeg oni'n licio

**Y llyfr da diwetha' i ti ei ddarllen**

"Ethel the Aardvark Goes Guantity Surveying"

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CEREDIGION, ABERYSTWYTH**
**AWST 1 - 8, 1992**

LLOND PABELL O WEITHGAREDD DRWY GYDOL YR WYTHNOS,
- CYSTADLAETHAU, BEIRNIADAETHAU, GRWPIAU ROC, GRWPIAU GWERIN, SYRCAS . . . EH!

IE, SYRCAS BOB BORE RHWNG 10.00 A 12.00

# GIGIODIGION

**SADWRN 1AF O AWST**
2.00 TIPS WYN GRUFFYDD
3.00 DATBLYGU
4.00 CANOL LLONYDD
4.45 MESCALERO

**LLUN 3YDD O AWST**
12.00 JECSYN FFEIF
2.00 AROS MAE
5.00 CIA

**MAWRTH 4YDD O AWST**
12.00 TY GWYDR
3.30 FFA COFFI PAWB
5.00 BOB DELYN A'R EBILLION

**MERCHER 5ED O AWST**
12.00 HEFIN HUWS
3.30 HANNER PEI
5.00 AIL GYFNOD

**IAU 6ED O AWST**
12.00 STEVE EAVES
3.30 TYNAL TYWYLL
5.00 BEGANIFS

**GWENER 7ED O AWST**
12.00 CERRIG MELYS
1.00 MABSANT
2.00 Y PROFIAD
3.30 GERAINT LOVGREEN
5.00 NEIL ROSSER

**SADWRN 8ED O AWST**
12.00 JYLOPIS
1.00 U-THANT
3.00 MEIC STEVENS
4.30 DOM


# CYFLE

*Cofio Mickey Mouse? Cofio Tom and Jerry?*
*Cofio Superted?*

**CYFLE** i chi'n awr greu llun.
**CYFLE** i chi animeiddio.

Dewch i stondin **CYFLE** ar y Maes.
CROESO I BAWB
DEWCH HEN AC IFANC, DEWCH.

# cystadleuaeth

# Ankstaidd **HOLLOL AMESING**

**Os fuoch chi i stondin ANKST am sbec eto mi fyddwch chi wedi sylwi ar y danteithion glafoerus cerddorol newydd sy'n llechu yno.**

Os na fuoch chi draw (ac mi ddylech chi fynd, wir) gwell imi ddweud wrthoch chi am y CDau a'r casetiau newydd gan **GERAINT JARMAN A'R CYNGANEDDWYR, STEVE EAVES A'I DRIAWD,** casgliad o oreuon **Y CYRFF**, sengl 7" ar y cyd gan **DATBLYGU** a **LLWYBR LLAETHOG/IFOR AP GLYN** a chasgliad fideo o fandiau **ANKST** sy'n cynnwys traciau gweledol hyfryd gan **BEGANIFS, TŶ GWYDR, FFA COFFI PAWB** etc.

Y newyddion cwbl syfrdanol yw bod ein cyfeillion **ANKSTAIDD** am roi copiau o'r uchod i ffwrdd am ddim fel gwobr i bwy bynnag fedar ateb tri cwestiwn syml, hynaws, hawdd a dyma nhw:

**1. Pa albym gan GERAINT JARMAN A'R CYNGANEDDWYR gafodd ei ail-recordio gan artistiaid cyfoes a'i ryddhau ar ANKST?**

**2. Beth oedd FFA COFFI PAWB yn ei gymryd ar eu sengl 12" diweddar?**

**3. Enwch un grwp y bu GARETH POTTER a MARC LUGG yn aelodau ohono cyn TŶ GWYDR.**

Atebion ar gerdyn post, plis, i'r **Gystadleuaeth Ankstaidd Hollol Amesing, 8 Rhes Fictoria, Bethesda, Gwynedd LL57 3AG.**

Dyddiad cau: Medi 10.



DATBLYGU + LLWYBR LLAETHOG

llun: John Griffiths




BEGANIFS

llun: Martin Roberts



FFA COFFI PAWB

llun: Rolant Dafis



llun: Rolant Dafis

# CAMU DROS Y RHINIOG

**Mae'r albym gynta' gan GERAINT JARMAN A'R CYNGANEDDWYR ers oes pys yn gorfod bod yn rhywbeth sbesial yn y calendr roc Cymraeg. Aeth ein gohebydd draw i Gaerdydd i gael gair neu ddau.**

Mae Geraint Jarman yn foi uffernol o brysur. Cant a mil o bethau yn amlwg yn rhedeg drwy ei feddwl ar unwaith ac yng nghanol y rheini mae'r ffaith ei fod newydd orffen recordio ei lp gyntaf ers pum mlynedd ac am y tro cyntaf ers haf '87 bydd y Cynganeddwyr yn chwarae ddwywaith yr haf yma, gan gynnwys nos Sadwrn olaf y 'Steddfod. Alla' i ddim peidio rhyfeddu cymaint o wahanol bethau y mae Jarman yn ei olygu i bobl erbyn hyn - y degau o bobl ddim cweit mor ifanc wnaeth ail-fyw eu hieuenctid mewn hanner awr o set yn "Rhyw Ddydd Un Dydd" i'r degau o fandiau ifanc fu drwy ddrysau Criw Byw a'i weld o fel y boi tu ôl i'r ddesg gymysgu. Ac wrth ofyn y cwestiwn anorfod lle y bu o cyhyd, mae rhywun yn sylweddoli na fu ar goll o gwbwl, dim ond symud o un rôl allweddol i un arall ond hynny mewn ffordd, a thrwy gyfrwng, gwahanol.

"Ar ôl Taith y Carcharorion *(Taith Jarman a Maffia ym 1986 - Gol)* mi chwalodd y Cynganeddwyr oherwydd bod pethau wedi newid, ac er bod hynny'n bownd o ddigwydd gan ein bod wedi cyrraedd rhyw bwynt arbennig yn ein hanes, mi ddaeth y straen a'r chwalu yn amlwg yn dilyn y daith honno. Ar ol hynny mi ron i'n styfnig ac isio i'r grwp barhau ac mi ddatblygodd yn fwy o 'showband' gan dynnu cerddorion proffesiynol da i gymeryd lle'r hen rai. Mae'n debyg ein bod ni'n fwy proffesiynol y pryd hynny ac mi barhaodd y peth gan nad oni'n fodlon gorffen ar y telerau hynny a chanlyniad y peth oedd 'Cerddorfa Wag' oedd yn l.p. ok yn yr ystyr bod 'na lawer o bethau diddorol arni. Ond doedd hi ddim yn lp y Cynganeddwyr gan nad oedd y naws yna arni."

I lawer o bobl 'Cerddorfa Wag' oedd diwedd y Jarman gafodd ei edmygu a'i ddilyn gan gymaint o bobl dros y blynyddoedd.

"Dwi ddim yn difaru ei gwneud hi achos y peth pwysicaf y mae hi yn ei gynrychioli ydi cychwyn y berthynas gyda Neil (White). Cyn hynny roedd y gwaith cerddorol yn cael ei wneud fwyaf gyda Tich (Gwilym) a Richard (Dunn)ond ers 'Cerddorfa Wag' mae'r berthynas rhyngof i a Neil wedi datblygu - nid yn unig o safbwynt ein cerddoriaeth ni ond gyda bandiau eraill ac mae Beganifs yn un enghraifft diweddar o hynny."

Roedd 'Cerddorfa Wag' yn golygu diwedd y gigs a diwedd ymddangosol y recordio ac am y tro cyntaf ers blynyddoedd mi ddiflanodd Jarman i bob pwrpas. Mae hynny erbyn heddiw yn swnio'n ddramatig ond mae'n bwysig rhoi popeth o fewn ei gyd-destun ac mi roedd y dyn yma wedi chwyldroi y byd roc

Cymraeg.
"Mi es i drwy gyfnod o 'low self esteem' ac ar yr un pryd mi gychwynodd Criw Byw ac mi benderfynais i roi fy holl egni i hwnnw gan ei bod hi'n well genna' i ddelio gyda'r positif yn hytrach na'r negyddol. Felly, ar ôl "Steddfod Casnewydd mi es i drwy'r broses feddyliol o dderbyn mai dyna'r gig olaf a bod popeth drosodd."

Ond mae yn ei ôl gyda "Rhiniog" ac ar ôl pum mlynedd lle mae o ei hun yn cyfaddef ei fod wedi mwynhau peidio meddwl amdano ei hun fel perfformiwr a chyfansoddwr ac felly osgoi'r sylw sydd ynghlwm â hynny, mae'n amlwg bod y creadigrwydd yn cyniwair eto. Ac ar ôl pum mlynedd o wrando ar stwff pobl eraill mae "Rhiniog" yn cynnig 14 cân newydd i'r byd gan gynnwys "Hei! Mr DJ" (o'r cd/caset amlgyfrannog 'Hei! Mr DJ') a "Tracksuit Gwyrdd" (o 'O'r Gad') sef y ddwy gân sydd wedi arwain y Jarman 'revial'. Ond mae hyn oll yn eitha' penbleth - sut mae rhywun yn ail-gychwyn cyfansoddi ar ôl peidio yn fwriadol am bum mlynedd?

"Mae caneuon imi wastad wedi dod o syniadaeth ac mi ron i wedi dechrau mynd yn sensitif unwaith eto i'r hyn roedd pobl yn ei ddweud, beth oedd yn digwydd yn y byd ayb ac felly mi ron i'n ffeindio fy hun yn sgwennu geiriau eto ac yn darllen mwy, ac o ganlyniad i'r ddau beth yna dechreuodd y caneuon ddod eto."

Ac os ydach chi eisiau syniad o'r hyn y bydd pobl yn ei ddweud a'r hyn fydd yn digwydd yn y byd dros yr wythnosau nesaf yna gallwch fentro y bydd "Rhiniog" ar yr agenda. Mi gawn ni'r cliches i gyd, Jarman yn ôl ayb ac mi fydd 'Golwg' yn gwlychu eu hunain am y tro cyntaf ers 'Rhyw Ddydd Un Dydd' - ond gwirionedd y sefyllfa yw bod hon yn lp y buasai rhai pobl yn fodlon lladd i feddu ar y gallu i'w chyfansoddi a'i recordio.

"Mae hi yn wahanol yn y ffordd nad yw'n record grwp. Yn y gorffennol mi roedd 'input' yn dod gan wahanol aelodau'r band ond y tro hwn Neil a fi oedd yn gweithio gan dynnu pobl eraill i fewn i'r peth wedyn. O achos hynny mi ro'ni'n ymwybodol wrth recordio pe bawn i'n mynd yn rhy bell i un cyfeiriad ac yn recordiuo lp techno, er enghraifft, y buasai pobl yn meddwl 'mod i'n trio profi rhywbeth, achos mae pob lp hyd yn hyn wedi cynrychioli trawsdoriad o'r gwahanol ddiddordebau cerddorol oedd gan aelodau'r band ar y pryd. Felly dwi wedi trio yn fwriadol i gadw yr amrywiaeth ar hon."

Ac mae'r trawsdoriad yma i'w weld ar ei orau ar "Rhiniog". Mae caneuon fel 'Repo' a 'Syllu'n Syn' yn gweiddi'r enw Jarman hyd yn oed cyn i'r llais gychwyn. Mae "Llwyth Dyn Diog" bron yn Affricanaidd, yn hynod o hafaidd ac yn brolio llwyth o leisiau cefndir; "Caffi Baghdad" bron yn "Tacsi i'r Tywyllwch" newydd ac yn goron ar y cyfan, yn fy marn i, mae "Strydoedd Cul Pontcanna" - y teitl yn atgoffa rhywun o hen stwff Jarman ond y gerddoriaeth a'r geiriau yn dangos y ddawn aruthrol sydd y tu ôl i'r lp yma.

"Mae 'Strydoedd Cul Pontcanna' yn un o'r caneuon 'o'r fron' sydd ar yr lp. Mae 'na ryw elfen ynof i - bron fel cadair psychiatrist' - lle mae pethau personol ynghlwm â phethau gwleidyddol a hynny ynghlwm â chyfnodau o amser penodol. Mae 'Pontcanna' yn ymwneud â lot o bethau - pan ddes i lawr i Gaerdydd gyntaf mi oni'n byw gyda brawd fy nhad yn Plasturton Gardens ac yno 'd oni 'mond yn siarad Cymraeg ac yna mi ddes i yn ôl a rhegi yn Saesneg yn y tŷ ac o fan'no hefyd y cychwynes i fynd i Ninian Park i weld y peldroed. Mae yna hefyd gyfeiriadau ('y slap wrth dyfu'n Gymro') at athro Cymraeg i mi gafodd slap yn ei wyneb am siarad Cymraeg ac at Sophia ('ffeiriau Sophia') lle roedd y ffeiriau yn dod ac wrth gwrs lle roedd S4C. Felly mae'r hen ddeuoliaeth yna yn dal ynof i - yn Gymro cymraeg ac yn Gymro Caerdydd ac hefyd wrth gwrs mae Pontcanna yn cael ei chyfrif yn ardal Gymreig."

Mae hon yn dilyn cân arall ar yr lp sy'n ymwneud â Chaerdydd sef "Tracksuit Gwyrdd" ('ghetto hefo colur') sy'n ymwneud â'r hyn sydd wedi digwydd yn y dociau yn ystod yr 80au. Yno mi roedd y gwir deimlad o fod yn rasta wedi dod allan mewn ffordd ymwybodol ac ymarferol iawn lle roedden nhw'n ceisio gwella'r gymdeithas ac yn uniaethu eu hunain gyda siaradwyr Cymraeg. Mae'r teimlad hwnnw wedi ei sugno allan o'r dociau gan 'fae y moch' (Cardiff Bay Development) a dwi yn teimlo bod 'na debygrwydd rhwng Cymreictod a bod yn berson du yng Nghaerdydd."

Mae'n honni fod yr lp yma yn ei atgoffa fwy am "Tacsi i'r Tywyllwch" a "Gobaith Mawr y Ganrif" o safbwynt ei chyfnod recordio. Mae hefyd yn dadlau bod y ffaith nad oedd arian gan Sain nag S4C yn caniatau iddo y tro hwn dreulio cyfnod hir di-dor yn y stiwdio, yn fwy o adlewyrchiad o realiti'r sefyllfa bresennol yn gyffredinol nac yn unrhyw adlewyrchiad ar Ankst fel cwmni recordio. Ei sylweddoliad mawr a'r ysbrydoliaeth i "Rhiniog" yw ffeindio unwaith eto bod ganddo rywbeth i'w ddweud ac er nad oes ganddo syniad lle mae'n ffitio mewn bellach, mae teitl yr lp yn golygu y bydd y byd mawr unwaith eto yn cyfarfod â chreadigrwydd Geraint Jarman. Ac mae'r person ei hun, er yn dal o fod dan sioc fod yr lp wedi digwydd o gwbl, yn barod i wynebu hynny o'r newydd.

Mae o hefyd yn ffan anferth o Lerpwl. Mae yna gân ar "Rhiniog" o'r enw 'Kenny Dalglish'.

"Mi edrychodd Tich ar y teitl yna a deud 'You always did get them good titles.' "

# ASIANTAETH ROC CYMRAEG

**Yn y gornel las, y Bwrdd Iaith, yn y gornel goch, Cymdeithas yr Iaith. Hen frwydr syn cael ei ymladd ar dir newydd - y byd roc Cymraeg.**

Y tu cefn i'r penawdau brawychus bod y Toriaid am "feddiannu" roc Cymraeg mae datblygiadau mawr wedi bod ar y gweill - bellach mae Cyngor Roc annibynol wedi ei sefydlu gan gerddorion Cymraeg. Dydi'r syniad o gael corff i hybu'r sîn ddim yn newydd - cynigiwyd y fath beth wedi ymweliad Rhys Mwyn, Dafydd Rhys a Gorwel Roberts a chynhadledd Berlin Independence Days ym 1989. Am dair blynedd bu'r syniad yn ffrwtian ar y tân ond yna mi ddechreuodd pethau boethi go iawn.

Yn Showbiz '92 daeth yn amlwg fod Cymru bron yn eithriad Ewropeaidd drwy beidio â chael pres cyhoeddus i ganu roc/cyfoes. Tra bod y Cyngor Celfyddydau'n ddigon hapus i wario cannoedd o filoedd ar gwmni opera doedd byth braidd yn chwarae yng Nghymru, doedd canu roc ddim yn haeddu pres i sefydlu canolfannau, datblygu dosbarthu a chodi safon y sin yn gyffredinol (yn fwy od fyth roedd Cyngor Celfyddydau'r Gorllewin yn fodlon noddi grwpiau gwerin "pur" ond nid grwpiau mwy cyfoes efo'u caneuon eu hunain - diwylliant amgueddfa plis!)

Rhoddwyd hwb i'r cynllun gan swyddogion roc Denmarc a'r Iwerddon ac mae'r sefydliad Cymraeg yn dechrau dod i weld rock'n'rawl fel "Great White Hope" yr iaith. Mae'r bobl sy'n pendroni sut i achub iaith sy'n diflannu o wefusau'r ieuenctid wedi taro ar y sin roc - a dydi'r naill ochr na'r llall yn rhy barod i drystio'u gilydd.

Does dim sicrwydd pres eto ond mae Huw Owen, swyddog gyda'r Bwrdd Iaith - sydd wedi ymateb yn ffafriol i'r syniad - wedi bod yn cysylltu a chwmniau er mwyn ariannu hyd at bedair swydd i bobl hyrwyddo roc Cymraeg yng Nghymru (pwysig!) a'r byd.

Un o'r ffynonellau yw gigs gan Mike Peters. Bu ei fand newydd, Poets of Justice, yn chwarae ym Methesda a Chaerdydd er mwyn codi pres i brynu capel y Tabernacl ym Methesda i greu canolfan i'r sin. Er ei fod yn annibynol, mae menter Bethesda yn gweithio tuag at yr un nôd â'r cyngor roc.

Ar un olwg mae cael corff i ddatblygu rhwydwaith o ganolfannau i hyrwyddo'r sin a meithrin y gwreiddiau efo pres cyhoeddus yn swnio'n addawol. Byddai'n galluogi i gerddoriaeth Gymraeg gyrraedd cynulleidfaoedd newydd o fewn Cymru a thramor.

Swnio'n grêt? Nid yn ôl Alun Llwyd, sy'n gwisgo dwy het - fel cadeirydd Cymdeithas yr Iaith ac un o gyfarwyddwyr cwmni Ankst. Mae o'n credu fod troi at gwangos Ceidwadol yn golygu fod cerddoriaeth Gymraeg yn colli'i annibyniaeth - yr union beth sy'n ei wneud mor unigryw a phwysig yng Nghymru.

Mae'n amheus o unrhyw nawdd, er fod o'n cydnabod bod llawer o fandiau'n dibynnu ar bres S4C.

*(Annheg. Nid nawdd ydi hynny ond arian am job o waith - Gol)* Felly mae nawdd cyhoeddus yn bodoli'n barod?

"Ydi, ond mae nawdd drwy'r Bwrdd Iaith yn wahanol - mae'n bres budr o ddwylo budr. Byddai Ankst yn gwrthod nawdd drwy'r Bwrdd Iaith, corff sy'n gweithio ar ran y Swyddfa Gymreig a'r Toriaid yn y maes iaith. Mae'r Bwrdd Iaith am hijacio'r syniad gwreiddiol - pam fod pethau'n symud mor sydyn rŵan?"


I'r Gymdeithas, os nad y cerddorion, mae dadl ehangach: mae holl bolisiau'r Toriaid yn economaidd a chymdeithasol yn lladd cymunedau Cymreig a Chymraeg gan orfodi pobl ifanc i adael Cymru a hybu'r mewnlifiad. Cosmetig rhad yw noddi cyngor roc ac ymgais arall i ddilyn ideoleg Toriaidd o "brynu pethau" fel y 'Steddfod a'r Cyngor Celfyddydau.

Dadl Huw Owen, sydd â phrofiad o brosiectau tebyg tra'n gweithio i asiantaethau hysbysebu yn Llundain, yw ei fod wedi derbyn gwahoddiad i Showbiz '92 yn hytrach na cheisio "hijacio" syniad. Dywed ei fod yn gwneud rhan o'r gwaith marchnata yn amser y Bwrdd Iaith a'r gweddill o'i wirfodd. Mae o, fel aelodau'r pwyllgor, yn credu y byddai'r cyngor roc yn rhoi hwb enfawr i roc Cymraeg gan ei wthio i ardaloedd newydd a sefydlu cadarnleoedd newydd i'r Gymraeg: "Drwy chwaraeon a roc mae cyrraedd yr ieuenctid - dyna neges POB diwylliant rŵan," meddai.

I gerddorion sy'n trio gwneud bywoliaeth mae cael nawdd yn demtasiwn hyd yn oed os oes 'na amheuon am gymhellion y noddwyr. Fedran nhw ddefnyddio'r pres yn fwy na fedrith y Toriaid ddefnyddio nhw? Na, yn ôl Alun Llwyd, sy'n credu mai creu dibyniaeth ar nawdd ymhlith y byd roc ydi nôd y Bwrdd Iaith.

Wrth i'r cyngor roc droi'n realiti mae'r ddadl rhwng y ddwy gornel yn poethi. A dim ond dechrau ar y rownd gyntaf ydan ni.

**Marc Jones**


# CWMNI CYTGORD CYF.

8 Rhes Victoria, Bethesda, Gwynedd LL57 3AG.

***YMCHWIL AR GYFER***

Fideo 9 - BBC Radio Cymru - Syth 92

***CYHOEDDWYR***

Sothach! - Uned Gelf - Galwad y Mynydd

***GWASANAETHAU***

Cysodi - Ffotocopio - Ffacs
Ymchwil - Catalog Roc

FFON: (0248) 600 578 FFACS: (0248) 600 587

# a dolygiadau byw

## CANOL CALED
-Lamb Inn
Hermon
Crymych

O "Marw'n Hapus" i'r "Gwyliau yn y Gwlff" a chaneuon am raglenni sebon Awstralia, maen nhw i gyd yma a mwy. Mae Canol Caled yn dda yn creu gwefr o anarchiaeth fawreddog i'r kids, sydd ddim wedi tyrru yma heno, ond mae yma hwyl.
Tydi Canol Caled erioed wedi bod yn fand trendi. Wchi, mae yna dri math o glic yng Nghymru: y trendis sy'n gweithio i raglenni cwl y teledu neu'n Anksters (grwpiau a threfnwyr), wedyn daw yr hogia sy'n rhan o'r sin ond sydd ddim eisiau bod yn trendi (ee grwpiau Pesda etc); ac yn olaf mae'r bandiau hynny, yn enwedig bandiau gwerin a'r bands hŷn (ee Lovgreen, Moniars etc) sydd yn chwarae am laff ac sydd ddim eisiau bod yn rhan o'r "sin". Mae Canol Caled wedi bod yn un o'r bandiau yn y categori olaf yma, yn chwarae'n ddibaid i gynulleidfaoedd gwan ac yn cael diffyg ymateb dybryd am flynyddoedd. Ond ydyn nhw'n poeni? Na, dwi ddim yn meddwl, mae Canol Caled yn dal i bwmpio'r egni allan yn eu caneuon, yn enwedig ar y 'cover versions' sydd mor gignoeth fel eu bod nhw'n tynnu blew oddi ar ganeuon enwog y Buzzcocks a'r Sex Pistols ac yn chwarae'n danllyd gyda'u clasuron eu hunain fel "Penguins", "Budgie"...... o, ia, a'r clasur gwrth-geidwadol cudd, "Cromlech Pentref Ifan", sydd o leia' hanner eiliad yn rhy hir heno, ond yn fwy telynegol alawol. Dydi'r rhan fwyaf o'r clasuron cynnar ddim yn cael y cyfle ond mae bron y cyfan o "Gwyliau yn y Gwlff" yn cael ei arddangos fel campwaith fetal. Mae gen i ryw fath o drueni dros Canol Caled. Mae hi'n dêg i ddweud fod y sŵn yn fyw yn ymylu ar y Lemonheads neu Nirvana? *(Aros am tua tri mis a bydd hanner grwpiau Cymru yn swnio fel Nirvana - Gol.)* ond mae'r ddelwedd a fu ganddynt yn parhau, a dyw hynny ddim yn dêg.
Dach chi'n gwybod sut hogia' ydi Canol Caled? Pan welwch chi arwydd yn dweud 'Mark Speed 10' ar y ffordd achos fod y cyngor yn rhoi 'chippings' i lawr, mi rydach chi'n siwr o gael rhyw iob yn yn gwneud 50 m.y.a. gan boeni am neb na dim (heb son am ei 'windscreen' fo'i hun!). Dyma pwy yw Canol Caled. Tra bod y rheolau yn pregethu cerdd ddawns trendi neu sain Manceinion, mae Canol Caled yn dal i yrru'n wyllt drwy bob dim ac yn cario ysbryd roc a rol i'r dyfodol, neu i ebargofiant? Mae'r 'winscreen' wedi torri ac mae'r awyr iach yn cael dod mewn o'r diwedd. Perarogl o Aberteifi.

**Y Ddafad Golledig**

## CYLCHOEDD HUD CAFFI VADASSI AMDDIFFYN HEFIN HUWS U-THANT BOB DELYN A'R EBILLION
-Noson Crai
Showbiz Cymru
Gwesty'r Marine
Aberystwyth

Roedd cynhadledd "Showbiz" wedi bod yn llwyddiant ac ron i'n teimlo'n eithaf da am ryw reswm. Roedd y siop ledr wedi llosgi ac roedd arogl y croen yn dal yn fy mhen. Gyda phoitifrwydd llond fy nghalon ymlaciaisyn y Marine yn deisyf noson fydde'n llenwi crai fy modolaeth a mesur teg o lawenydd.
Pan ddaeth Cylchoedd Hud ymlaen i'n diddanu roedd fy intêc o alcohol yn fychan ac roeddwn yn gallu canolbwyntio'n feirniadol ar safon y grwp. Rhaid cyfaddef gyda gonestrwydd arswydus nad ysgwydwyd mohonof i'm craidd gan eu perfformiad. Er bod ganddynt rhai cyffyrddiadau diddorol, doedd eu cyfanwaith ddim yn bodloni. Mae'n ddigon hawdd ffeindio cwpwl o synnau addawol. Y grefft ydi eu ffitio nhw i fframwaith sy'n gwneud synnwyr i'r gwrandawr. Un jiraff.
Wedyn daeth Amddiffyn ymlaen ond rhwng ordro mwy o ddiod yn y bar ac ymgomio, chlywais i ddim mohonyn nhw felly annheg fuasai imi fwrw fy marn. Jiraff anweledig.
Erbyn imi ymlwybro'n ôl i'm sedd gyfforddus ym mwrllwch cefn y neuadd dastefwll roedd Caffi Fadasi yn paratoi i fynegi eu hunian. Bum yn feirniadol o'r grwp yn y gorffennol a does gen y ffaith fod prif gitarydd y grwp wedi'm bygwth a 'kinky bitch' a chwip lledr ddim i'w wneud â'r newid meddwl gefais yn ystod y perfformiad arbennig hwn. Fe'm cyffrow gan 'Lliw Llawn Ystafell", eu cân ddiweddara' ac ron i'n licio'r ffordd roedd Mike, y canwr, yn dwad allan i'r dorf i grŵnio, er bod hyn yn fy atgoffa braidd o Berlin circa 1920. Pump jiraff a hanner wombat.
Gobeithio fod y comatose ddim yn esbonio pam mod i'n ystyried perfformiad Hefin Huws yn

# yt WORKS

## YOUR FIRST OPPORTUNITY FOR A LASTING FUTURE

Last year, 3,000 16-18 year olds found YT places in North West Wales. Why did they choose YT instead of further education?

Because YT increased their chances of getting a permanent, rewarding job. So, if you're keen to get out to work instead of staying in to study, YT could work for you too.

With YT, the focus is on gaining practical skills that can be used throughout your life. You could also gain valuable qualifications. And while you're learning, you're earning! You'll probably find many employers prefer someone with work experience. And with the shortage of certain skills in North West Wales, there is a ready job market for the right people.

So, will YT work for you? Find out - contact your local Careers Service for more information.

## EICH CAM CYNTAF TUAG AT DDYFODOL SICR


Y flwyddyn ddiwethaf fe gafodd 3,000 o bobl ifanc rhwng 16 - 18 oed le ar raglen Hyfforddiant Ieuenctid yng Ngogledd Orllewin Cymru. Pam dewis YT yn hytrach nag addysg bellach?

Oherwydd bod YT yn cynyddu eu siawns o gael swydd barhaol, werth chweil.

Felly, os ydych chi'n awyddus i fynd allan i weithio yn hytrach nag aros yn tŷ i astudio, fe allai YT weithio'n dda i chithau hefyd.

Ar YT rhoddir y prif sylw i ddatblygu sgiliau ymarferol y gellwch eu defnyddio trwy gydol eich oes. Gallech hefyd ennill cymwysterau gwerthfawr. Byddwch yn ennill arian yn ogystal ac yn dysgu! Mae'n well gan lawer o gyflogwyr roi swydd i rywun sydd wedi cael profiad gwaith a chyda phrinder o rai sgiliau arbennig yng Ngogledd Orllewin Cymru, mae swydd ar gyfer pobl gyda'r cymwysterau iawn.

Felly, a all YT weithio i chi? I gael gwybod hynny, cysylltwch â'ch Swyddfa Gyrfaocdd leol i gael rhagor o wybodaeth.



# yt YN GWEITHIO

**TARGED**

DEVELOPING THE FUTURE PROSPERITY OF OUR COMMUNITIES | DATBLYGU FFYNIANT EIN CYMUNEDAU I'R DYFODOL

TRAINING · CYNGHORAU · ENTERPRISE · HYFFORDDIANT · COUNCILS · MENTER · TEC · CHM

# a d o l y g i a d a u b y w

gampwaith. Er mod i wedi gwrando arnyn nhw ar record ers blynyddoedd tydyn nhw jyst heb fachu ynof o'r blaen ond y noson hon, hwc line & sinker. Ugain jiraff a dau eliffant ydi'r rating. Perfformiad tynn hefo'r lleisiau'n creu cerddoriaeth go iawn yn hytrach na rymblo bler, trydanaidd sy'n nodweddu cymaint o'n pop stars anystyriol.
Erbyn i U Thant ddod 'mlaen ron i'n eitha' llawen ac roedd eu steil newydd nhw o ddyrnu 'mlaen ac ymlaen yn egniol ar yr un nodyn am hanner awr yn siwtio fy anallu berniadol yn berffaith. Lot, lot gwell. Pump jiraff ac orang utang.
Yn olaf ymddangosodd Bob Delyn a'r Ebillion. Disgwyliais safon a diddanwch a dwi'n siwr mai dyna gaethon ni. Oni 'chydig bach yn sosld erbyn hyn felly fedra' i ddim manylu ar gymlethdodau diddorol a dadlennol eu twangio ond roedd lot o bobl yn dawnsio ac yn cael uffern o hwyl felly dwi'n cymeryd eu bod mor dda ag arfer. Pymtheg jiraff, chwech hyena a dau aardvark. (Diolch arbennig i Keith Donald, y sacsyn snazi o'r Iwerddon.)

**MABSANT**
**-Sesiwn Fflach**
**Showbiz Cymru**
**Yr Angel**
**Aberystwyth**

Gyda Fflach yn datblygu i fod yn un o brif labeli gwerin Cymru (4 yn y Bar, Moniars, Defaid, Mabsant, Cusan Tân etc) mae'n ddifyr gweld mai dim ond un grwp allai wneud y noson bwysig hon. Mae 'Showbiz' ei hun yn syniad da, ond dwi'n amau cywirdeb y trefnu wrth roi noson 'roots' yn yr undeb myfyrwyr a Mabsant yn yr Angel ar ryr un noson. Ond dyna fo, roedd yr Angel yn llawn o bobl yn mwynhau erbyn y diwedd, ond pobl leol Aberystwyth oedd yno ac nid pobl 'Showbiz'. Mae Mabsant yn gerddorol arbennig gyda synth a chlarinet yn creu sain cyfoes i'r gerddoriaeth draddodiadol. O ran y swn, dim ond un bai oedd a hynny ar y drymiau gwan, tini ar y synth. O hyn ymlaen pam na wnaiff bands tebyg dalu ychydig i gael drymiwr iawn.
O un gân i'r llall roedd amrywiaetyh eang a hwyl gwirioneddol, er efallai nad pyb gig ydi'r lle gorau i ganu clasuron traddodiadol fel 'Titrwm Tatrwm' ayb. Mae hyn bron iawn yn halogiad. Rhaid nodi cyn cloi mai gwiriondeb o'r radd flaenaf yw canu rhan fawr o glasur Stevens, "Tryweryn", yn Saesneg; "Tryweryn" o bob cân! Be' ydi'r pwynt?
Gyda diweddglo stormus ar 'Moliannwn', a'r gynulleidfa yn taranu canu a dawnsio, daw y noson i ben ar nodyn Moniarsaidd.
Dwi ddim yn siwr....
Chwech jiraff a hanner.

**DEFAID**
**-Y Dom**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**18.6.92**

Dawns diwedd tymor i fyfyrwyr y brifysgol ym Mangor. Eto roedd croeso i bawb fod yno. Yn ôl y posteri Y Defaid a'r Gofodwyr Piws yn chwarae ond dim ond y Defaid drodd lan yn y diwedd. Heb fod yn y Dôm ers dwy flynedd cofiais fod y lle yn edrych yn debyg i rywbeth allan o'r 'Crystal Maze'.

Trist iawn oedd clywed nad oedd y Gofodwyr Piws yn gallu chwarae. O wel, eistedd yn ol amdani a cael chat fach neu ddau efo hwn a'r llall adeg y disgo. Neis gweld criw gweddol yn dawnsio. Yna daeth Y Defaid ar y llwyfan.
Wel, am berfformiad. Cyn y gig roeddwn mewn dau feddwl a oedd y Defaid yn ddigon o grwp i gynnal gig o'r maint yma ond roedd hyn yn ddim problem i'r criw gwlanol o ardal Dolgellau/Machynlleth. Roedd y perfformiad yn dynn ac yn egniol efo'r rhythmau roc yn mynd i lawr yn dda efo'r melodiau gwerin. Trueni na fyddai bach mwy o bobl wedi troi i fyny ond pwy sy'n poeni, nath pawb oedd yno gael amser da!

Mae'r Defaid ar y ffordd i bethau mwy a gwell. Efallai y dylent newid eu enw i'r Manic Folk Preachers?

**Bob Huws**

***Wyt ti wedi bod i gig yn ddiweddar?***
***Ges di dy siomi?***
***Ges di wefr?***
***Oedd o'n ddiflas neu'n wych?***
***Oes gen ti'r awydd i rannu dy brofiadau gyda'r genedl?***
***Licio gweld dy enw mewn print?***

***Anfona dy adolygs byw i'r cyfeiriad isod:***

***Adolygs Byw Sothach!***
***8 Rhes Victoria***
***Bethesda***
***Gwynedd LL57 3AG***



WETHANT
YN EISIAU AM DROSEDD NA WNAETHANT
S4C
Y SLOFWCH LAWR 'NEWCH CHI! PUFF! PANT!
GWICH!
GWICH!
WE ARE DOING EVERYTHING IN OUR POWER TO APPREHEND THESE NASTY MEN
NO, MUSICIANS YOU KNOW THE TYPE. TIGHT TROUSERS.
NO SIR! ABSOLUTELY NO SIGN AT ALL OVER AND OUT!
NO SIGN SIR. THE'RE PROBABLY IN RIO BY NOW!
WHARE TEG I DY FAM AM WNEUD CINIO I NI
A'I MOFYN Y KERPLUNK YN Y MAN
NIFTY!





TAWEL NOS
GIG HENO BAND DDA!
BAND DA?
YNDI?
YNÔL Y POSTER.
O?
IA, AWN NI?
OCÊ
YN Y GIG...
BAND DDA-HENO
UGAIN PEINT O 'FOUR X'
AC UGAIN ARALL I MET FI.
DIM PROB
O DIAR!
BE' TI'N SBÏO AR? TI 'RIOED DI GWELD RHYWUN BACH O'R BLAEN?
AWR A HANNER WEDYN...
PEINT ARALL..?
OCÊ, OND MA'R BOI 'NA DAL YN PRYFOCIO FI -BYDD RHAID I MI DYRNU FO.
DWI'N EDRYCH YMLAEN AT WYLIO'R BAND DDA
BAND DDA
YIIIIHAAA AAA!!
GRAG
WEDYN ETO...
O LLE TI'N DOD DEL?
YCH!!
LLE?
DÔS O'MA, MAE DY WYNT YN DREWI -SGLYFATH!
Y BAND DDA YN CHWARAE
FFAAA..!!
THYC!
BWLSAI!
YIII HAA!!
DIWEDD Y NOSON...
...A DIOLCH YN FAWR I'R BAND AM DDOD YR HOLL FFORDD O LLANBIDINODYN A CHWARAE MOR DDA I NI— NÔS DA!
NÔS DA? YDI'R BAR WEDI CA...? ...BAND? BAND.? PA BAND?
Ô

# aDOLYGiADAU

## TY GWYDR
-"Reu (Mics)"
(ANKST)


Dwi'n gywbod sut ymateb ga' i am adolygu hwn: "Dydi o ddim yn gwybod dim am 'dance music', neu "Di o'm yn dallt dans music." I'r rhai sydd yn deall, mae hyn yn ddigon têg, i'r gweddill ohonoch chi - "Stick with me..."
Un pwrpas sydd i gerddoriaeth ddawns: Dawnsio! Ydw i'n iawn? (Peidiwch ateb ar gerdyn post). Rhythm hypnotig sy'n cael ei chwarae gan DJs i greu awyrgylch tonfedd uchel. Mae'n debyg (yn ôl y cylchgrawn "Young People Today") fod rhai neuaddau 'rave' mor fach, mor glos a phoeth a chwyslyd nes bod yr arwedd yn gwneud cymylau gwirioneddol tu mewn, yn y clwb, sydd yn gloywi go iawn!!! Ecosystem reu!
Mae ystyr yr ebychiad "Reu" yn ddadleuol hefyd. Dywed rhai mai cyffur ydyw, eraill mai "Yo" ydyw, eraill yn taeru mai unigryw i'r Gymraeg yw'r ystyr, wchi - "Tyrd yma y reu bach ac mi reu ladda' i di!!"
Y tristwch efallai yw fod grwp fel Tŷ Gwydr yn troi eu holl sioe, set, recordiau a phopeth o amgylch "REU" - dim ots pa ystyr ddewiswch chi.
Yn gerddorol mae "Reu" yn arbennig o sal, gallai plentyn wneud caneuon gwell! Ac i ddweud y gwir dwi ddim yn siwr faint o record Gymraeg yw hi gan fod lot fawr o Saesneg ar y gân, "Come on, what's going on" etc a'r unig air Cymraeg (?) yw "Reu"!! Gyda'r "Fi'n Serious" yn creu awyrgylch afiach ar "Anwaraidd", dwi'n troi drosodd i "127 Cicio" sydd ddim yn fy nghynhyrfu i ddawnsio o gwbl. Oes yna




rywun allan fan'na heblaw am DJs yn prynu pethau fel yma? Mae "Welsh Ragga" yn well, ond ddim yn taro deuddeg o bell ffordd.
Os ydych chi'n hoffi sain "rave" felly dwi'n siwr y gwnewch chi hoffi hwn beth bynnag am fy meirniadaeth i, achos mae'r reu yma yn dda, ond dydw i ddim yn hoffi reu....deall?


## Y CYNGHORWYR
-"Insylt i'r Intelijyns"
(Crai)

Wyddoch chi ar "C'mon Midffild" sut mae pawb yn pathetic ac yn chwarae cymeriadau clasurol stoc fel y Ffŵl, y Cybudd, y Bwli etc, wel, mi fuasai'r holl gomedi yn fethiant pathetig petai pawb yn ffitio'n syth mewn i'r categoriau yma a'r unig beth sy'n cadw'r cast rhag hyn yw bodolaeth Tecs, y goli. Mae normalrwydd Tecs yn gwneud dim, ond yn creu'r cymeriadau eraill yn fwy gwirion fyth! Dyna athrylith crewr y gyfres a dyma lle mae'r Cynghorwyr yn methu.
Mae'r Cynghorwyr yn gwybod eu bod yn ddigri'. Iawn, grêt, a peidied neb â gwadu, achos ar eu gorau maen nhw'n ddigri' iawn (pwy all fyth amau band wnaiff wisgo cilts ar y teledu?!?) ac mae'r cymeriadau yn unigryw ond lle mae'r "Tecs"? Y person 'normal'. Mae Tudur Huws Jones yn normal i gymharu â'r lleill ond tydi o ddim yn ddigon blaenllaw i sylwi (er ei fod yn eithafol o flaenllaw yn gerddorol.)
Yn wir THJ sy'n cadw'r holl beth i symud ar wib gyda'i fanjo a mandola, dyma beth sy'n rhoi'r 'edge' i'r gerddoriaeth. Ac mae ei angen. Mae pob cân yn swnio'n debyg iawn ac mae hynny'n gwneud y gwaith gwrando'n anodd ond, diolch byth, mae yma ambell glasur yn sefyll allan. Mae "John Fawr" yn wych, yn gorfodi gwên a'r geiriau'n tynnu ar bob John Bach, Mawr a




Maen nhw wedi dod yn bell ers Clustiau Cŵn a'r "Welsh Tourist Bored" arbrofol dawnus ond cam yn ôl yw hwn o'm rhan i.
Rhedeg yn droednoeth drwy Babylon.

# GŴYL O LYFRAU



**DIGON HEN I YFED!**

Mynediad am Ddim yn Ddeunaw Oed.
Atgofion, straeon, caneuon, cerddoriaeth, lluniau, toriadau a llawer o sbort a sbri.
88 tud. cwarto; £3.90

**Y MEINI'N SIARAD**

Cyfrol o ryddiaith y diweddar Bernard Evans
88 tud. £3.25




**Cyfres Tecwyn**

Stori a llun am dractor hoffus i blant mân gan Margiad Roberts a Carys Owen.
Stori ddiddorol a lluniau llawn lliw ardderchog.
36 tudalen, £2.95 yr un

**TECWYN Y TRACTOR**
**TECWYN YN AREDIG**

**Cyfres Gwerin Ewrop**

Dwy gyfrol arall sy'n cyflwyno straeon a gwledydd bychain Ewrop i ieuenctid Cymru

3. STRAEON AC ARWYR GWERIN LLYDAW
4. STRAEON AC ARWYR GWERIN NORWY

Lluniau pen ac inc; £2.95 yr un

**CHWEDLAU SIÔN AC ELERI**

gan John E. Williams; 112 tudalen; £2.75
Straeon difyr am anifeiliaid, pysgod ac adar o bob cwr o Gymru sy'n cyflwyno chwedloniaeth a rhamant yr ardaloedd i'r plant.

***GWASG CARREG GWALCH***
*Capel Garmon, Llanrwst, Gwynedd ☎ 0690 710261; Ffacs: 0690 710798*



# Y Boars Head

**Tafarn Steddfod '92**
**ger Y Prom!**

## Bwyd / Disgo

11 a.m. - 11p.m.

- bob nos yn ystod wythnos y Steddfod

***ABERYSTWYTH***

ger Swyddfa'r Heddlu!!!
ffôn: (0970) 626106



R O C ★ F F L A C H ★ R O C ★ F F L A C H ★ R O C ★

CWMNI FFLACH

CASETS **ROC FFLACH**

# D.O.M.

CD

## TIPS WYN GRUFFYDD

## DEFAID

## GOREUON MALCOM NEON

(ARLOESWR Y SIN INDI CYMRAEG)

CASET CYNTAF GWRTHOD YR AFAL

ALLAN YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CEREDIGION, ABERYSTWYTH

**FFLACH - Y LABEL ROC!**


R O C ★ F F L A C H ★ R O C ★ F F L A C H ★ R O C ★

# 'a DLYGiADAU

Chanolig. Mae'r "A470" yn grêt achos ei bod yn enwi tref fy nghartref ynghŷd â rhai lleoedd eraill llai pwysig.
Mae "Sŵn Ffarwelio" yn glasur heb ei ail yn treiddio'r isymwybod gyda'i driniaeth llon o gan leddf. Clasur y 'stadium roc band' gyda'r cytganau hir canadwy. O God, bydd Ray Gravell yn hoffi hon'na!
Y broblem efallai yw fod y gynulleidfa nid yn unig yn chwerthin am ben y Cynghorwyr yn hytrach na chwerthin gyda nhw ond nad ydi'r gynulleidfa'n chwerthin o gwbl.
Mae hwn yn dâp da ond mi fuasai fersiwn o'r "Spiderman Theme" wedi bod yn neis. wot ei bynsh of Wali Tomosys!
Ti ddim 'di dallt hi, pync, hwn yw'r bwrdd lladriniaeth a fi yw'r llawfeddyg.
**Y Ddafad Golledig**

## HOGIA LLANDEGAI
-"Dal i Ganu, Dal i Fynd"
(Sain)

Oni'n meddwl ar y dechrau pam ddiawl mae hwn yn mynd i gael adolygiad yn "Sothach". Yna sylweddolais bod agwedd gul iawn gennyf ac, o gofio ei bod hi'n 1992, mae'n bryd cael meddwl agored a derbyn Hogia Llandegai i mewn i'r Cylt Cerddorol.
Cymerodd Michael Jackson tua pum mlynedd i neud 'follow-up' i "Thriller". Bog off, mae Hogia Llandegai wedi cymryd pedair mlynedd ar bymtheg i neud 'follow-up'. Record byd efallai. Sai'n gwybod ond dim ond blwydd oed oni pan gyhoeddwyd eu record diwethaf.
Mae'r Hogia yn 'home boys' go iawn efo caneuon fel "Dyffryn Ogwen", "Strydoedd Bethesda" a "Cân Am Eryri". Maent yn rhai o'r Cymry go iawn; gwrandewch ar y gân "Rhowch Imi Gymru Cymraeg". Dyle fod Ron, Now a Nev yn aelodau seneddol i Blaid Cymru (Wel, 'falle ddim cweit mor bell).








Mae hiwmor yn beth iach o hyd medde nhw ac mae 'na ddigon o hwnnw ar y tâp yma yn siglo efo'r bît sgiffl ar "Jini Jemeima Rhosybol", "Can Taid" a "Cowboi Bach Ty Ni". Nid ydynt yn anghofio'r materion pwysig 'chwaith efo caneuon fel "Strydoedd Bethesda" a "Ionawr".
Os yw Tom Jones yn ôl, dyw Hogia Llandegai erioed wedi gadael y llwyfan. Dal i ganu ac yn dal i fynd ond cofiwch mae wedi bod yn galed iddynt ar ôl colli Molly RIP.
Sgiffl on i'r 'Steddfod. A fyddan nhw'n canu yn y noson REU? Maen nhw'n rhy trendi. Maent yn haeddu'r Steddfod i'r Sgiffl Bit. Get on down, the time is right.
**Elwyn McBurger**

## BEGANIFS
-"Ffraeth"
(ANKST)

Hei, Beganifs, let's hit the big time. Mae shwt gymaint o heip a son am Beganifs wedi bod yn ddiweddar, a yw'r LP yma yn cyfiawnhau hyn? Yr ateb syml yw ie a na!
Efo'r anthemau fel 'Uwchben Cymylau' a 'Cwcwll' (hefyd ar y tâp/CD 'O'r Gad') i ddylanwadau Acid Jazz a la Hanner Pei sydd yn y gân 'Cyffwrdd' mae yma dair can uffernol o dda.
Ar ôl dechrau naff mae'r gân 'Disgyn' yn datblygu i fod yn reit 'user friendly'. Newid awyrgylch yn 'Neidio i'r Aur'. Cân yn fwy cwl a 'laid back' na'r gweddill.
Mae'r dub mix o 'Cyffwrdd' yn fwy effeithiol na'r remix o 'Cwcwll'. Mae'r remix o 'Cwcwll' yn uffernol o boring tra mae'r remix arall yn llawn ffynci grwfs ac ati.
Mae'r albym yma yn llawn o'r bit dawns. Mae'r albym yn llawn potensial a all arwain at rhywbeth all fod yn fwy nag anferthol. Rol on y 'steddfod achos fy mod methu aros i'w gweld yn fyw. Wel dim cweit gymaint â hynny!




- **Steve Eaves a'i Driawd**
  *Croendenau*
  cd/caset ankst 028

- **Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr**
  *Rhiniog*
  cd/caset ankst 029

- **Y Cyrff**
  *Mae ddoe yn ddoe...*
  cd/caset ankst 030

- **Y Cyrff**
  *Damwain mewn ffatri cyllell affyrc*
  caset bootleg ankst 026
  (nifer cyfyngedig am ddim gyda chasgliad Y Cyrff ; o stondyn Ankst yn unig)

- **Datblygu** - *Maes E*
  **Llwybr Llaethog** - *Ni fydd y chwyldro*
  sengl 7" ankst 032
  (Copiau am ddim, ar gael yn Noson Claddu Reu)
  Pafiliwn Pontrhydfendigaid , Awst 6)


- **Pop Peth**
  *Casglid fideo pop yn y Gymraeg*
  Yn cynnwys - Aros Mae, Beganifs, Y Cyrff, Datblygu, Llwybr Llaethog, Ffa Coffi Pawb, Fflaps a Tŷ Gwydr
  Ankst/S4C

ankst


# aDOLYGiADAU

## LLWYBR LLAETHOG
-"Mewn Dyb"
(ROIR)

Ers i'r Trwynau Coch ymadael ar chwa o heip i'r Amerig i ddwyn sylw cenedl fwyaf cŵl y byd at bop Cymraeg, mae pawb sy'n unrhywun wedi trio eu gorau i ddilyn ôl traed John Cale a chael 'permanent booking' yn yr Afal Fawr ei hun. Mae hyd yn oed yr Anhrefn yn dal i drio gan fod pawb yn gwybod mai dim ond trydydd prynwr recordiau mwya'r byd yw'r Almaenwr. Am brynu does neb all guro'r Americanwr.
Ac o'r diwedd dyma fo! Y 'breakthrough' fu Cymru yn ei ddisgwyl. "I guilt trip! Still with music this fine, such feelings are dissipated, spirits are restored and life is good. Isn't it? The only thing that remains is to make that funny remark about baseball caps bearing the legend TAFFHEAD will become ubiquitous as a result of Llwybr Llaethog's music spreading across the Milky Way." Dyna beth sydd gan y bobl ar draws y mor mawr i'w ddweud ac mae'n rhaid cytuno wrth gwrs achos pwy ydyn ni i gwestiynu'r mawrion hyn?
I ddweud yr unig wir, yr holl wir etc tydi hwn ddim mor wych â hynny'n gerddorol. Mae Llwybr Llaethog wedi sgwennu rhai o glasuron y Gymraeg ac os am farchnata yn Lloegr efallai mai "Byd Mor Wahano", "Y Ddinas Fawr" etc ddylai fod yma (a "Dull Di-Drais") i ddangos gwir ddawn yr hogia.
Mae hi'n gret gweld fod Ll.Ll. yn dal yr un mor berthnasol ag erioed gyda'r caneuon yn amrywio o'r "Rhyfel yn y Gwlff" at "Methu Dal y Pwysa". Grêt! Gobeithio y




bydd hon yn rhif 37 yn yr US charts, man! Da iawn. Clinton ap Penrhiw nesaf.




**Mr Wah**

## LLESMAIR
-"f2f"
(llesmair)

Dyma nhw Cerrig Melys Mk 2 ond dim cweit efo cymaint o effeithiau ar y gitarau. I ddweud y gwir, er eu bod yn ifanc, maen nhw bach yn well na Cerrig Melys. Caset 4 can yw hwn. Recordiwyd "Syrthio" yn Stiwdio Les ac mae'n dda iawn hefo sŵn da a digon o ddylanwad cerddoriaeth indie. Recordiwyd "Cynhalia Fi" yn fyw yn y Miner's Arms, Wrecsam, a beiriant 4-trac efo 'overdubs' ar ôl hynny. Safon sain yn dda ac awyrgylch byw da i'r gân. Rwy'n edrych 'mlaen i'w gweld yn fyw ar ôl hyn ond ddim "rhwng dy goesau".
Mae'r ddwy gân nesa sef "Nofio" a "Machlud" wedi eu recordio ar hi-fi ac mae'r swn yn amlwg yn dirywio. Ar "Nofio" mae 'na sampls oddi ar record The Orb ac mae llais TS Elliot i'w glywed. Yn anffodus mae'r gân ei hun yn uffernol o boring.
Trueni nad yw'r arian ar gael i recordio rhai o'r traciau gorau yn iawn. Llesmeiriwch i'r dyfodol da chi. Tâp da.
(6.5/10)
**Wil Jones**

## MANIC STREET PREACHERS
-"Generation Terrorists"
(Columbia)

O Blackwood, Gwent, i enwogrwydd byd eang. O chwarae fel ail fand i Tynal Tywyll yng Nghlwb Ifor Bach i enghreifftiau o gasineb a hunan-anafu yn yr NME. O wleidyddiaeth diflastod y "Great Rock & Roll Swindle"i greu clasuron yn neg uchaf Gallup (Cytgord where are you now?). O fod yn neb, i fod yn neb, pwysig. Croeso i fyd afreal y pres mawr, y twyll, yr heip, y clics, yr afiach sin. Croeso i fyd y Manic Street Preachers.

# SEINIAU'R STEDDFOD!

crai

**TYNAL TYWYLL**
"LLE DWI ISHIO BOD"
- 14 CÂN -

**ADDEWID**
"RHYDDHAD"
- 6 CÂN -


**BYD NEWYDD**
"ROCED RYAN GIGS"
- 10 CÂN -

**SORIANT**
"TRIA WELTI"
- 6 CÂN -

**MONIARS**

GALWCH HEIBIO STONDIN SAIN / CRAI!

CRAI CANOLFAN SAIN LLANDWROG CAERNARFON
(0286) 831 111







# OES GENNYCH CHWI STORI DDA?

**YDY'CH MAM YN RHEDEG MARATHON?**

**YDY'CH NAIN YN DAL I DDAWNSIO DAWNS Y GLOCSEN?**

**YDY'CH BRAWD YN CADW BOA CONSTRICTOR?**




GRONANT, CAERNARFON
LL55 1NS

FFÔN (0286) 77595

# aDOLYGiADAU

## MANIC STREET PREACHERS




Gyda'u rhethreg gwrthwladgarol hyd at eu galwadau enllibus am Americanwyr, mae'r Manic Street Preachers wedi creu'r sin dros y flwyddyn ac ychydig diwethaf ac mae eu breuddwyd wedi ei hanner wireddu. Y pres? Do. Yr enw? Do. Y sylw. Do. Y dylanwad? Wel, mae hynny i'w weld. Tydi'r sengl ffantastig, "Motown Junk", ddim ar yr l.p. ddwbl yma, ac i ddweud y gwir, efallai fod hynny'n dangos ac yn dweud llawer am y c.d. sy'n swnio'n debycach i Guns & Roses nag i'r Clash. Mae "Slash & Burn" yn fetal meddal tra bod "You Love Us" yn ymylu ar yr ochr pync. Mae "Methadone Pretty" yn roc a rol a "Love's Sweet exile" yn glasur roc y stadiwm. Clasur yr l.p. yw "Motorcycle Emptiness" sy'n araf a thrist. Amser wylo.... Crac o c.d. yn ymbelydru trwy'r niwl o sothach Seisnig. Jest gwnewch rwbath am yr agwedd Gymreig ac mi fyddwn ni'n dod ymlaen yn grêt, Ritchie. Sathrwn ar eu cyrn.



**AMRYWIOL**
**-"Dickie, Dickie, Dick Kryzwycki, (Na Na Na Na Na Na)**

Tâp pedair cân sy'n dod am ddim hefo unig gylchgrawn peldroed da Cymru, "Two Left Feet". Mae hwn yn syniad da, yn enwedig ar ôl dweud ar y radio fod y cylchgrawn yn gwerthu led led Prydain ac mae'r golygydd yn swnio'n 'right on' hefyd. Mae hi'n rhyfedd sut mae peldroedwyr a popstars yn caru eu gilydd gymaint. Sylwch faint o grwpiau sy'n cefnogi un tim arbennig (ee U Thant) a bod twrnameint peldroed i grwpiau wedi bod yng nghynhadledd Showbiz eleni. Sylwer hefyd sut mae peldroedwyr yn caru cerddoriaeth bop. O'r "You'll Never Walk Alone" ar y tersays i ganeuon y timau ymhob cystadleuaeth fawr (ee "Spurs Are On Their Way To Wembley") ac wedyn mae Gazza.... Mae grwpiau Cymraeg y brifddinas wedi gwneud troeon da diri' a pheldroed (ee "Dim ID" U Thant a "Rygbi" Cofion Ralgex) ond hyd yma, am wn i, dyma'r tro cyntaf i bethau droi fel arall. Ar ochr un ('onside' ac 'offside' wrth gwrs) mae Ffa Coffi Pawb a Beganifs tra ar ochr dau mae Tŷ Gwydr a Datblygu. Mae Ffa Coffi Pawb yn ail-ddarganfgod yr hen sŵn ac mae'r gan yn gwireddu'r si bod yr haul yn gwenu ar y band dawnus yma.

Dwi wedi adolygu Beganifs cyn heddiw a'r gân yma (gellir clywed pob un o'r caneuon yma ar recordiau eraill) yn arbennig. Os oes gennych chi'r felan byth....gwrandewch ar hon. O.K., mae'n dechrau tyfu'n hen rŵan ond dyw hynny'n tynnu dim oddi ar yr alaw syfrdanol. Can o haf yng nghanol gaeaf.

Does gen i ddim amynedd efo Tŷ Gwydr. Pwy fydd eisiau gwrando ar hwn ymhen blwyddyn, heb son am ddeng mlynedd. Ond maen nhw'n gneud beth maen nhw eisiau ei wneud yn dda iawn, ac yn dangos cywirdeb trydanol heb ei ail.

Ar y tâp amrywiol tanddaearol, "Burning Down The Chapels", dywedwyd: "None of the artists play rugby" - yn hollol, mi fyddai'n hwyl gweld "Scrumbag" yn rhoi tâp am ddim hefo'r cylchgrawn - ha ha!

Mae hwn yn syniad gret ac os ydach chi'n gall mi brynwch chi o am £1.00 gyda'r cylchgrawn gan gynyddu'r gwerthiant er mwyn cael un arall (a chael bargen o dâp 'showcase' gan Ankst). Prynwch shades a gwrandewch.

# ABER y Sesh Fwyaf eRiOEd?

**Mae Leyshon Jenkins wedi bod yn swancio rownd Aberystwyth ers tro rwan. Dyma fo i'ch cynghori ac cyfarwyddo chi o gwmpas hot sbots y dre.**

Ai hon fydd y sesh fwyaf erioed? Digon o gigs, digon (efallai gormod) o bybs a'r lle'n llawn pobl meddw hanner call a dwl. A fydd y bands lleol fel Tips Wyn Gruffydd a Canol Llonydd yn elwa o'r ecstrafagansa Cymreig blynyddol. Cofiwch fod Mescalero yn yr ardal.

Ar ôl gwyliau fel Roc Ystwyth a'r Rhyng-gol, a'i hon fydd yr ŵyl fwyaf erioed trwy gyfrwng y Gymraeg? O wel, digon o hwna a mwy o hyn:

### Y GEID GARW SWYDDOGOL I 'STEDDFOD '92

**Y Pybs**

1 Cŵps *****
2 C.P's. *****
3 Y Llew Du ****
4 Central **
5 Y Ceffyl Gwyn *
6 Y Bay ***
7 Marine *
8 Rummers ****
9 Angel ***
10 Weston *

***** Rhaid meddwi yn fan hyn
**** Yfwch lot yn fan hyn
*** Iawn am un neu ddau
** Os chi'n bored, ewch am un
* Gewch chi KO ar ddiflastod

**Llefydd I Grasho Mas**

1 Dan y pier
2 Public shelter
3 Y coed tu fas i'r Undeb
4 Ar y traeth o dan y Consti
5 Y toiledau ym Mhlas Crug (os i chi'n foch!)
6 Gardd cwrw'r C.P's.
7 Unrhyw le ym Mhantycelyn
8 Cefn y Bandstand
9 Y siopau ger yr orsaf
10 Unrhyw un o'r gwestai sydd ar y prom (os mae'r arian ar gael!)

**Peintiau Neisaf Aber**

1 Red Stripe (Rummers)
2 Worthi Best (Cwps, C.P's. ac ati)
3 Felinfoel Double Dragon (Mill)
4 Ansell's Best (Talbot)
5 Lowenbrau (Rummers)

**Pobl Mwyaf Cŵl Sy'n Byw Yn Aberystwyth**

1 Dr John Davies
2 Lyn Ebenezer
3 Dewi Emlyn
4 Elfed y Cŵps
5 David R Edwards

**Y Pethau Mwyaf Rhamantus**

**I'w Gwneud Yn Aberystwyth**

1 Snog yn y castell
2 Snog yn y coed tu fas i'r Undeb
3 Cicio'r bar
4 Mynd am sesh
5 Cicio'r bwced


**Y Digwyddiadau Mwyaf Chwyldroadol yn Hanes Aberystwyth**

1 Agor Pantycelyn
2 Gig "Ffrwydro Gyda Mwynhâd" - Awst '86
3 Roc Ystwyth '87 - perfformiad Traddodiad Ofnus
4 Protest gyntaf y Gymdeithas ar Bont Trefechan
5 'Steddfod '92

**Proffwydoliaeth Am Gigs Gorau'r 'Steddfod**

1 Gig Claddu Reu - Pontrhydfendigaid 6/8/92
2 Jarman - Neuadd Fawr 8/8/92
3 Ffa Coffi, U-Thant - Neuadd Fawr 4/8/92
4 Hanner Pei - 1/8/92
5 Tynal Tywyll - Neuadd Fawr 5/8/92

Mae'r gweddill lan i chi....



# Annwyl Sothach!.............

Annwyl Soth,
Roedd "Y Gornel Glasuron" yn y rhifyn diwetha' yn hollol warthus. Pwy ff** ddaru ddewis y recordiau crap 'na? Pwy bynnag nath, tydi o ddim yn ffit. Hoffwn gynnig fy neg uchaf fy hun sef: 1) 'Green Green Grass of Home' Mike Peters & the Poets of Justice 2) 'Heartbreak Hotel' John Cale 3) 'Get Down' Gilbert O'Sullivan 4) 'Bimbos ar Asid' Y Celfi Cam 5) 'Those Were The Days' Côr Gŵyl Werin y Cnapan 6) 'The Number of the Beast' Hogia Llandegai 7) 'Peintio'r Nenfwd Hefo Fy Ymennydd' Datblygu 8) 'Hebogau Fy Nhad' Babŵns Lloerig 9) 'I Should Be So Lucky' Kylie Minogue 10) 'Cwm Rhondda' Côr Meibion Treorci. Diolch, Jên Dafis Jones, Stryd Gam, Llan Ffestiniog, Gwynedd.

***Dewis cachu os ga' i ddweud.***

Annwyl Syr,
Rydym ar hyn o bryd yn archwilio'r posibilrwydd o godi 'theme park' yng ngorllewin Cymru fydd yn seiliedig ar y sin bop Gymreig a hoffem wybod beth yw barn eich darllenwyr am hyn? Ein bwriad yw defnyddio technegau carthffosiaeth modern i sychu aber yr afon Cleddau gan lenwi'r morfa wedyn hefo concrid ac astro-turf. Byddai'r parc yn cynnwys cerfluniau swreal o'r mawrion megis Meic Stephens, Geraint Griffiths, Caryl Parry Jones, Rhys Mwyn, Sobin etc ynghŷd â thrên bach ar ffurf Trên bach yr Wyddfa hefo androids o Hogia Llandegai yn canu'r hen ffefrynnau, amgueddfa o hen dannau gitâr Tich Gwilym, cafe yn seiliedig ar y danteithion a fwyteir gan sêr pop Cymru a'r uchafbwynt, stafell 'cyber' lle fedrwch chi fod yn bop star Cymraeg a gwneud pob dim mae eich arwyr yn ei wneud dim ond i chi wisgo'r helmed a'r siwt perthnasol. Dyna ein cynlluniau yn fras. Bydd adroddiad manwl yn cael ei baratoi maes o law. Yn y cyfamser, croesawn unrhyw ymateb, Y Bon. Walt Disney, Disneyworld (Wales), Yr Hen Danerdy, Florida.

***Gwêd na i ffordd osgoi Bethesda.***

Annwyl Bili "Jinx",
Hei, Bili, mae 'na gang o ploncars (NEU SKINHEADS) y de sydd yn mega-insylt i RAP miwsic, ie Bili, y blydi "PROFIAD". Mae Sion-Scabby-Lewis wedi nicio syniad Dafydd Iwan sef Carioci Cymraeg! Peth mor gwael i ddod allan o "Hollywood" neu CRAPDYDD $ ers dryg pushers "TŶ BUDUR". Bili!! Nawr mae'r stiwpid radio Cymraeg yn barod i chwarae "Mills & Boon Melody Rap" trwy Haf Poeth Noeth '92! "O Na Dyma Hwntws Novelty Act Rhan £2". Tyrd efo fi lawr i sortio'r Canton Cretins allan, Bili! "R" Walchmai '92 xxx.
O.N. Mae'r "SRG" yn gachu ar ben merched yn bendant (A5 er enghraifft), blydi "SECSIST RETARDS GYMREIG" yw gwir ystyr yr "SRG".

***Da iawn. Llythyr o safon uchel iawn unwaith eto.***

Yo Ffrinds,
Glywaist ti, Brych, fod cyffro ar bapur yn bosib. Anghofia'r papyrus yn yr Aifft gynt. Rho dy geiniogau ym mhoced golygydd "Yo! Uchelseinydd". Heb "Yo!" does dim ystyr i fywyd ac mae'r bêcd bins wedi ceulo. Gyda "Yo!" yn dy feddiant mi fydd disgleirdeb bendigedig yn nhrylowyder pob defnyn o wlith. Mae'r ail rifyn allan nawr. Dowch i siarad gyda'r kinky bitch a'i thad, Mefus Nefolaidd. Copiau ar gael am 60c (yn cynnwys post),
Mefus Nefolaidd, Darbod, Llanuwchllyn, Gwynedd.

***Gwyliwch am 'Yo Uchelseinydd" mewn toiled cyhoeddus yn eich ardal chi yn o fuan.***

Annwyl Sothach,
Roedd yn rhaid imi sgwennu i ymateb i sylwadau cyfeiliornus Gerallt Williams yn y rhifyn diwetha'. Be ddiawl sydd o'i le ar drym mashins a blips? Fe ŵyr pawb, neno'r popeth, bod y gitâr yn farw gelain ac mai ffwlbri yw datgan, fel y gwna Hogia Llandegai, bod 'pawb yn chwarae gitâr'. Tydi hyn ddim yn wir, tydi pawb ddim yn chwarae gitar a phwy oedd y clown gwirion oedd yn taflu sen a gwawd ar ein cyfeillion yng nghoedwigoedd yr Amazon, roedd....*(Dyna ddigon - Gol.)*
Mr Eurwyn Boregad Williams, Caerliwelydd, Lloegr.

***Anodd bod yn siŵr am hyn. Bydd pawb yn swnio fel Nirvana cyn bo hir, ta beth.***

Llythyr Agored i Gymdeithas Peldroed Cymru,
A gaf i fanteiso ar y cyfle i ddweud yn hollol ddiarwybod ac yn ddiflewyn ar dafod bod safon hwliganiaeth dilynwyr peldroed Cymru yn echrydus o isel. Bum i yn Romania a'r Iseldiroedd yn ddiweddar ac, er imi wneud fy ngorau i gymell trais, anhrefn ac annibendod (trwy heclo, pryfocio, cicio a malu), ofer fu'r cyfan. Hoffwn ofyn i Alun Evans paham nad roddir sylw i'r agwedd bwysig hon ar y gêm?
Y Cyrnol TJ Bibonwy Jones, Llanandras, Powys.

# CATALOG ROC CYTGORD

# CATALOG ROC CYTGORD

AIL GYFNOD - **NUANCE 12"** £4.45 (R) (E.P.)
- **ISOMERIG** £2.55 (C)

AIL SYMUDIAD - **RHY FYR I FOD YN JOCI** £5.10 (C)

ALAN GINSBERG - **CEGIN SARON** £4.99 (c)

AMLGYFRANNOG - **BYW YN BRAF YN GIBRALTAR** £4.80 (C)
- **DYMA'R RYSAIT** £2.05 (EP)
- **GWYRDD** £4.70 (C)
- **PWY FYDD YMA MEWN CAN MLYNEDD** £3.60 (C)
- **PENROC 1** £5.10 (C)
- **MERCHED YN BENNAF** £5.65 (C)
- **HEN WLAD FY NHADAU** £6.10 (C)
- **HEI! MR DJ** £6.65(C) £10.65 (CD)
- **TORRI'R SGRIN** £1.55 (C)
- **O'R GAD** (C) £6.99
- **O'R GAD** (CD) £10.50

ANHREFN - **SOFT LIGHTS & LOUD GITARS** £4.85 (LP)
- **BE NESA 89 7"** £2.05 (S)
- **DEFAID SKATEBOARDS A WELLIES** £4.85 (L.P.)
- **BWRW CWRW** £4.85 (L.P.)
- **BWTLEG POWERHAUS** £3.05 (R)

BEGANIFS - **LLYGAID GWYDR** £4.10 (C)
- **FFRAETH** £6.10 (C)

BOL - **BOL NADOLIG** £2.55 (C)
- **YN EICH GWYNEB** £2.05 (C)
- **BOL** £2.05 (C)

BRODYR - **CYMYNRODD** £6.15 (C)

BYD AFIACH - **BOBS NARSISYS YUM, YUM, YUM** £3.70 (C)
- **SLOTH** £2.85 (C)
- **FINE FIGURE OF A MAN** £2.75 (C)
- **SLAP GO HEGAR** £4.60 (C)
- **CROESHOELIWCH FI** £1.55 (C)

CANOL CALED - **YR HAWL I FYW** £2.05 (S)

CEFFYL PREN - **ENNILL DROS GYMRU** 12" £3.80 (S)

CELT - **CYNFFON** £4.00 (C)

CERRIG MELYS - **CERRIG MELYS** £3.60 (C)
- **EIN DWYLO ALLTUD** £4.60 (C)
- **CAU DY LYGAID** £3.10 12"

CUT TUNES - **POBL Y NADROEDD** £3.60 (C)

CWRW BACH - **TAMEIDIAU** £2.55 (C)

CYNGHORWYR - **FFIDLAN** £5.10 (C)

DATBLYGU - **BLWCH TYMER TYMOR** £4.70 (C)

DEREC BROWN - **HANES Y BYD** £5.10 (C)

DIEMS - **GOBAITH** £4.70 (C)

DYFED EDWARDS - **DECHRAU** £2.45 (C)
- **SWN TAWEL TRISTWCH** £2.05 (C)

DYLAN DAVIES A'R CRIW - **DYLAN DAVIES A'R CRIW** £4.10 (C)

EIRIN PERYGLUS - **TROSGYNNOL** £3.40 (C)
- **MERTHYR** £2.05 (S)
- **EIRIN PERYGLUS** 12" £3.40 (S)

FFA COFFI PAWB - **ALLAN O'I PHEN 12"** £3.40 (S)
- **FFA COFFI PAWB 12"** £3.60 (S)
- **CLYMHALIO** £6.10

FFA COFFI PAWB / TERRY WAITE - **FFLECSI** £1.00 (S)

FFLAPS - **AMHERSAIN** £4.60(LP)
- **MALLTOD** £5.95 (LP)
- **DILYN DYLAN** £2.05 (S)

GERAINT GRIFFITHS - **ARARAT** £6.15 (C)

GERAINT LOVGREEN - **OS METS** £6.15 (C)
- **ENLLIB** £5.10 (C)

GWEFRAU - **GWEFRAU 12"** £4.10 (12")

GWRTHEYRN - **SYCH AR Y SUL** £6.15 (C)

HEB GARIAD - **CANEUON O'R DE** £2.05 (S)

HEFIN HUWS - **HEFIN HUWS** £4.10 (C)
- **CAE CHWARAE** £3.50 (C)

HUW CHISWELL - **RHYWBETH O'I LE** £6.15 (C)
- **RHYWUN YN GADAEL** £6.15 (C)

JESS - **HYFRYD I FOD YN FYW** £5.99 (C) £9.50 (CD)
- **JESS** £3.10 (C)
- **JULIA GITAR** £2.05 (S)
- **Y GATH** £3.10 (C)

JINA - **Y LLWYBR** £3.10(C)

JOHN GRINDELL - **PAID A GADAEL CYMRU** £4.10 (C)

LLE ANGHYSBELL - **TRYLEDIAD** £4.60 (C)

LLWYBR LLAETHOG - **PAM 12"** £3.60 (EP)

LL.LL. v TY GWYDR MCDRE - £6..10 (C) a (R)

LMR - **BYW YMYSG Y FWLTURIAID** £4.70 (C)

GERAINT LOVGREEN - **OS METS** £6.15 (C)
- **ENLLIB** £5.10 (C)

MABSANT - **COFEB** £6.15 (C)
- **TON GRON** £6.15 (C) £9.50 (CD)

MAE FI GYN - **GARIJAM** £2.65 (C)

MAFFIA - **AWE FO'R MICSAR** £4.60 (C)
- **DA NI'M YN RHAN** £5.10 (C)
- **TWTHPEST OSON FFRENDLI** £4.85 (C)

MISTECS - **POBL DIGWILIDD** £4.60 (C)

MOJO - **RHYDD RHYW DDYDD** £6.15 (C)
- **AWN YMLAEN FEL HYN** £6.65(C)

NEIL ROSSER A'R PARTNERIAID - **SIONI BOB OCHR** £4.60 (C)
- **FFORDD NEWYDD GYMREIG O FYW** £2.55 (C)
- **OCHR TREFORUS O'R DRE** £6.10 (C)

NEU UNRHYW DECLYN ARALL - **NEU** £3.40 (C)

NID MADAGASCAR - **LLEDRITH LLIW** £3.60 (12")

NYAH FEARTIES - **BARASSIE** £2.05 (S)

PLANT BACH OFNUS - **AWST / LLWYD** £2.05 (S)
- **ISHARMONIG 12"** £3.75 (E.P.)
- **SYMUDIAD YMDDANGOSOL Y LLEUAD** £4.10 (C)

POP POSITIF - **POP POSITIF** £2.05 (S)

PRY CLUSTIOG - **FY NGWLAD FY HUN** £5.10 (C)

PYW DALL - **DIM HEDDWCH** £3.60 (C)

RAY JONES - **MILLTIROEDD** £5.10 (C)

SIAN JAMES - **CYSGODION KARMA** £6.15 (C)

SOBIN A'R SMAELIAID - **SOBIN A'R SMAELIAID** £9.70 (CD)

STEVE EAVES - **SBECTOL DYWYLL** £5.50 (C)
- **TIR NEB** £2.75 (C)
- **PLANT POBL ERAILL** £6.65 (C)

TRADDODIAD OFNUS - **RHIF 2 12"** £3.80 (EP)

TY GWYDR - **YR UNIG ATEB** £4.10 (12")
- **EFFEITHIOL** £6.10

TYNAL TYWYLL - **JACK KEROUAC** £2.05 (S)
- **BYW TALU** £3.50 (C)
- **TELYN WEDI TORRI** £2.05 (S)
- **TYNAL TYWYLL** £2.05 (S)

U THANT - **BUGEILIO** £5.60 (LP)
- **U THANT 12"** £4.00 (EP)

WENFFLAM / MASNACH RHYDD
- **WENFFLAM / MASNACH RHYDD** £4.10 (C)

Y CELFI CAM - **BLE AETH HELMUT?** £2.00 (C)

Y CYRFF - **LLAWENYDD HEB DDIWEDD** £6.10 (LP) (C)
- **CYMRU LLOEGR A LLANRWST 12"** £4.85 (EP)
- **HWYL FAWR HEULWEN** £2.05 (EP)
- **AWDL O ANOBAITH** £4.60 (C)
- **YR HAINT** £2.05 (S)
- **PUM MUNUD** £2.05 (S)

Y JECSYN FFEIF - **ANNIBYNIAETH BARN** £5.10 (C)

Y LLYGAID - **Y CASET DU** £3.40 (C)

YR ORSEDD - **X** £3.40 (C)

CRYSAU T **Y CYRFF** - £6.15 **EIRIN PERYGLUS** - £6.15
**BAMBW** - £5.60 **JESS** - £7.15 **Y FFLAPS** -£6.15 **12:45** - £3.10

***PRISIAU YN CYNNWYS TRETH AR WERTH 17.5% A CHLUDIANT***

---


Amgaeaf siec / archeb post yn daladwy i **CYTGORD**
am £................ fel tâl am.........................................
.......................................................................
ENW.....................................................................
CYFEIRIAD...........................................................
.......................................................................AXI.

**Anfonwch i : CYTGORD, 8 RHES VICTORIA, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3AG.**

***FE ALL ARCHEBION GYMERYD HYD AT 21 DIWRNOD I'CH CYRRAEDD!***

Enw i'w wylio,

llun i wrando arno



S4C